

# ESTYNIADAU

Canllaw i berchennog tŷ i  
estyn y man lle'r ydych yn byw



ESTYNIADAU DOMESTIG | CYNLLUNIO | RHEOLIADAU ADEILADU | DOD O HYD I ARBENIGWYR





*"Quality work, Honest Prices"*

## **Pitched Roofing | Fascias & Soffits Demolition**

We are a Roofing team with over 13 years experience. We undertake all types of Roofing and Lead work. We operate 24 hours a day, 7 days a week and are always at the end of the phone in case of emergency call outs. We take pride in our craftsmanship and honesty.

**07446 054793**

**[info@blacklionroofing.com](mailto:info@blacklionroofing.com)**

# CharlesJames

DEVELOPMENTS & INTERIORS

## YOUR TRUSTED, BESPOKE BUILDING SERVICE

Charles James Developments and Interiors, based in Cardiff, South Wales offers a bespoke building service that puts your ideas first.

Our aim is to keep things as simple as possible for you throughout your building project, without compromising on delivering first-class results for you and your home. However big or small your project is, you can trust our experts to handle every aspect of the job with care, professionalism and attention to detail from start to finish.



### OUR SERVICES INCLUDE

PLANNING & DESIGN  
BUILDING & RENOVATION  
BESPOKE KITCHENS & FURNITURE  
THE PERFECT FINISH

[www.charlesjamesdevelopments.co.uk](http://www.charlesjamesdevelopments.co.uk)

Call us on: 02920 484 144

Email: [info@charlesjamesdevelopments.co.uk](mailto:info@charlesjamesdevelopments.co.uk)

Visit our Showroom: 13 Wellfield Road, Cardiff, CF24 3NZ.

FINANCE  
AVAILABLE



**‘Together We Can’**

Our client base is diverse comprising domestic, retail, commercial and public sector clients.

Projects undertaken include:

- New Build, Developments, Loft Conversions and Extensions.
- Maintenance, Renovation and Alterations to a range of Domestic, Retail, Commercial and Public Sector Buildings.
- Renovation and Conservation Work to Listed Buildings.
- Landscape Design of Gardens for Domestic and Commercial Clients.



Provide a service from design through to construction. Produce Feasibility, Planning and Building Regulation Drawings, Construction Notes and Associated Documentations. Produce Tender Documents for Project Quotations, Stage Payments Valuations, Deal with On-Site Queries, Inspection of Works and Snagging of Works on Completion.

**Ask for Barry Williams 07989 790664**  
**E: cynllun.ni\_our.design@outlook.com**  
**E: our.design1@outlook.com**  
**W: <https://cynllunni-ourdesign.co.uk>**



Bessemer Close, Cardiff CF11 8DL

**02920 225115**

**<https://wtbuildinggroup.co.uk>**

**W T BUILDING GROUP IN  
 CARDIFF A BUILDING  
 COMPANY YOU CAN TRUST**

Since 1980, W T Building Group have been recognized as a top Building Company in Cardiff and the Vale. We have provided clients with a wide range of contracting services for all their remodeling and repairing needs. Whether you're looking to renovate your existing space or add a whole new extension, We are happy to help you achieve the results you seek.

Contact us today to receive a free estimate.

# Cynnwys



Rhagarweiniad .....	5
Rheoliadau Adeiladu .....	7
Unigolion Cymwys .....	13
Caniatâd Cynllunio a Chaniatadau Eraill .....	17
Dod o Hyd i Arbenigwyr.....	20
Estyniadau .....	25
Trawsnewidiadau .....	37
Addasiadau .....	54
Effeithlonrwydd Egri .....	57
Gwybodaeth Bellach .....	65

Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth y cwmnïau sy'n hysbysebu yn y cyhoeddiad hwn.

Hoffem ninnau eu cefnogi hwythau drwy dynnu sylw ein darllenwyr at eu cyhoeddiadau.

Fodd bynnag, mae angen egluro, er ein bod wedi bod yn ofalus iawn wrth baratoir cyhoeddiad hwn a'r datganiadau sydd ynddo, na all yr hyrwyddwr dan sylw na'r Cyhoeddwr dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau nac am y cynhyrchion na'r gwasanaethau a hysbysebir.

Dyluniwyd a chyhoeddiwyd gan Building Control Communications (rhan o zinc media), Kings House, Royal Court, Brook Street, Macclesfield, Swydd Gaer SK11 7AE.

Ffôn: (01625) 613000. [www.zincmedia.com](http://www.zincmedia.com) Cyf: PRW 2020 © Building Control Communications.

Cedwir pob hawl.

- 30 YEARS OF FIRST-CLASS SERVICE
- ONE STOP SHOP FOR YOUR GLAZING NEEDS
- COMMERCIAL, TRADE AND DOMESTIC IMPROVEMENTS
- INSTALLER OF THE YEAR 2019

**[www.nolanupvc.co.uk](http://www.nolanupvc.co.uk) • [www.nolancommercial.co.uk](http://www.nolancommercial.co.uk)  
[sales@nolanupvc.co.uk](mailto:sales@nolanupvc.co.uk) • Tel: 01267 223700**

# Hoffwn estyn y man lle'r wyf yn byw - **Ble ydw i'n dechrau?**



Mae estyniadau a thrawsnewidiadau wedi dod yn ffordd fwy poblogaidd o wneud y gorau o'r lle i fyw ynddo yn y cartref. Os cânt eu gwneud yn dda, gallant hefyd ychwanegu llawer at werth eiddo.

Mae prisiau tai'n dal i godi ac mae symud tŷ'n achosi llawer o gost ac anhrefn – £20,000 ar gyfartaledd – felly mae estyn eich cartref neu drawsnewid man sydd ddim yn cael ei ddefnyddio, fel yr atig, yn aml yn gallu gwneud mwy o synnwyr economaidd na phrynu eiddo newydd.

Mae math a maint estyniadau a thrawsnewidiadau'n gallu amrywio'n fawr – bydd llawer yn dibynnu ar eich anghenion a'ch gofynion chi, y gyllideb a pha mor addas yw'r safle.



Mae adeiladu estyniad neu drawsnewid eich atig yn gallu bod yn syniad brawychus. Mae angen ystyried llawer o bethau cyn i chi ddechrau – ond drwy ddewis gwasanaeth rheoli adeiladu [rhowch enw'r awdurdod yma] byddwch ar y trywydd cywir yn barod.

Nid yw'r canllaw cam wrth gam hwn yn cymryd lle cyngor proffesiynol, ond dylai roi gwell dealltwriaeth i chi o'r prif heriau sy'n debygol o'ch wynebu, ac yn benodol, sut y bydd y rheoliadau adeiladu'n effeithio ar ddylunio ac adeiladu eich prosiect.





We are C&K Groundworks, a construction and groundworks company based in Merthyr Tydfil dedicated to providing a variety of high quality work at affordable prices all across South Wales. We offer a wide range of construction and groundwork related services.



Services include:

- ✓ Plastering
- ✓ Groundworks
- ✓ Brickwork
- ✓ Roofing
- ✓ Painting & Decorating
- ✓ Maintenance
- ✓ Block Paving
- ✓ Hard Landscaping
- ✓ Tarmacing

📞 07817 751308

✉ [info@ck-groundworks.co.uk](mailto:info@ck-groundworks.co.uk) | 🌐 [ck-groundworks.co.uk](http://ck-groundworks.co.uk)



# Rheoliadau Adeiladu



Fel perchennog tŷ, cyn i chi adeiladu neu newid adeilad mewn rhai ffyrdd mae'n rhaid i chi wirio a oes angen cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu.

Mae'r rheoliadau adeiladu'n safonau technegol manwl a bennir gan y Llywodraeth i wneud yn siŵr bod cartrefi'n cael eu hadeiladu at safon resymol a'u bod yn ddiogel, yn gynnes ac yn sych. Maent hefyd yn ymdrin â meysydd fel diogelwch tân, defnyddio egni a hygyrchedd.

Mae cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar wahân i ganiatâd cynllunio ac mae'n bosibl y bydd angen y ddau – bydd yr olaf o'r rhain yn dibynnu ar raddfa a maint eich prosiect.

Bydd angen cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar bob prosiect estyniad a thrawsnewidiad, ac mae'n well siarad â thîm



rheoli adeiladu eich awdurdod lleol i gael cyngor ac arweiniad cyn dechrau eich prosiect.

## Beth fydd yn digwydd os nad wyf yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu?

Bydd gwaith adeiladu sydd ddim yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu'n cael ei ystyried yn ddiawdurdod a gallech gael eich erlyn. Hefyd, os canfyddir bod y gwaith yn ddiffygiol neu'n beryglus, neu os nad yw'n bodloni safonau effeithlonrwydd egni, gallai

eich awdurdod lleol wneud i chi dalu am ei gywiro.

Dylech hysbysu tîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol cyn dechrau gwaith, oni bai bod y gwaith yn cael ei wneud gan osodwr cofrestredig ar gynllun unigolion cymwys sy'n gallu hunanardystio bod eu gwaith yn cydymffurfio. Os na fydd hyn yn digwydd, ni fydd gan yr awdurdod lleol gofnod bod y gwaith yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu. Bydd y cofnodion hyn yn bwysig pan fyddwch yn gwerthu eich cartref oherwydd bydd gofyn i chi ddarparu tystysgrifau cydymffurfiad yn ystod y broses werthu.

### Beth yw'r rheoliadau adeiladu?

Mae rheoliadau adeiladu'n ymwneud â sut y dylid adeiladu adeilad, a'r pwrpas yw sicrhau bod adeiladau newydd yn bodloni safonau penodol o ran iechyd a diogelwch, lles a chynaliadwyedd. Bydd angen i'r rhan fwyaf o waith adeiladu, gan gynnwys pob math o estyniad a thrawsnewidiad, gydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu.

Mae'n bosibl y gallwch wneud rhai mân dasgau eich hun heb orfod rhoi gwybod i dîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol (ond rydym yn argymhell defnyddio unigolion cymwys). Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y rhan fwyaf o waith atgyweirio, amnewid a chynnal a chadw (ac eithrio amnewid offer llosgi, tanciau olew, blychau ffiwsys trydanol neu unedau gwydro – mae angen hysbysu am y rhain)
- Socedi pŵer neu oleuadau ychwanegol neu unrhyw newidiadau eraill i gylchedau sy'n bodoli (ac eithrio o gwmpas baddonau a chawodydd)
- Amnewid baddonau, toiledau, basnau neu sinciau â rhai tebyg



Mae mathau eraill o waith adeiladu'n gallu bod yn 'eithriedig' rhag y rheoliadau adeiladu. Mae'r rhain yn cynnwys siediau, tai haf, ystafelloedd gwydr, pyrth, dysglau lloeren, garejis ar wahân a phyrth ceir. Fodd bynnag, cyn y gellir datgan bod y rhain yn 'eithriedig' mae'n rhaid iddynt fodloni meini prawf penodol ac rydym yn argymhell bod tîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol yn edrych ar gynigion adeiladau o'r fath. Os nad yw'r gwaith yr ydych yn ei gynnig yn eithriedig, bydd angen cymeradwyaeth gan dîm rheoli adeiladu'r awdurdod lleol. Gellir gwneud hyn drwy wneud cais rheoliadau adeiladu i'r awdurdod lleol perthnasol cyn dechrau'r gwaith.



## Pa fath o gais Rheoliadau Adeiladu y bydd ei angen arna'i?

Yn gyffredinol, mae dau fath o gais rheoliadau adeiladu: Cynlluniau Llawn a Hysbysiad Adeiladu.

### Cynlluniau llawn

Dyma'r math mwyaf cyffredin o gais y bydd timau rheoli adeiladu awdurdodau lleol yn ei dderbyn ar gyfer gwaith adeiladu. Mae angen cyflwyno lliniadau manwl ynghyd â'r ffi berthnasol am y gwaith sy'n cael ei wneud. Caiff y cynlluniau eu harchwilio a chaiff hysbysiad cymeradwyo ei gyflwyno, fel rheol ynghyd â chynllun arolygu, cyn i'r gwaith ddechrau. Bydd y cynllun archwilio'n amlinellu'r camau gwaith y bydd angen eu harolygu, a bydd y rhain yn amrywio gan ddibynnu ar y canlynol:


- Maint a chymhlethdod eich prosiect
- Oed eich cartref
- Y math o adeiladwaith
- Amodau'r ddaear
- Profiad yr adeiladwr.

Gall y broses Cynlluniau Llawn gymryd hyd at wyth wythnos, ond yn y rhan fwyaf o achosion caiff ei chwblhau ymhell cyn hyn. Mae'r hysbysiad cymeradwyaeth yn ddilys am dair blynedd a chyn belled â'ch bod yn dechrau gwaith cyn yr amser hwn, cechw barhau a chwblhau'r gwaith heb derfyn amser.


Pan fydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau, bydd tîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol yn cyflwyno tystysgrif cwblhau i ddangos bod y gwaith wedi'i archwilio'n annibynnol a'i fod, cyn belled ag yr oedd modd ei ▶

# SURECAV®

SURECAV25 - Saves time, space, effort and money!



Now the option to create more space on any build – up to 7.5% more on a 2 storey, 3 bedroom house!



Halves the cost of building with a backing block!



Wall area of SureCav on a pick-up – equals – 40 tonnes of 100mm concrete blocks



SureCav25 is **the only approved method** for constructing 25mm residual cavities, ideal for brickwork and all masonry finishes.

Full technical details, installation instructions and drawings for SureCav25 and SureCav50 can be downloaded from our web site.

[www.surecav.co.uk](http://www.surecav.co.uk)    01963 34660    [info@surecav.co.uk](mailto:info@surecav.co.uk)



asesu, yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu.

### Hysbysiad adeiladu

Mae hon yn drefn lawer cyflymach na'r dewis Cynlluniau Llawn a chaiff ei defnyddio fel rheol ar gyfer mân waith, fel tynnu wal cynnal pwysau fewnol. Un o fanteision mawr Hysbysiad Adeiladu yw ei fod yn caniatáu i waith ddechrau 48 awr ar ôl cyflwyno'r cais gan nad oes angen archwilio cynlluniau cyn dechrau gwaith. Unwaith y bydd gwaith wedi'i ddechrau, bydd syrfêwr rheoli adeiladu'r awdurdod lleol yn ymweld â'r safle i gyfarfod â'r adeiladwr i drafod y cynlluniau a chytuno ynglŷn â sut y dylid gwneud y gwaith a phryd bydd archwiliadau safle penodol yn digwydd. Pan fydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau, bydd tîm rheoli adeiladu'r awdurdod lleol yn cyflwyno tystysgrif cwblhau i ddangos bod y gwaith wedi'i archwilio'n annibynnol a'i fod, cyn belled ag yr oedd modd ei asesu, yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu.

I gael eglurder ynglŷn â pha fath o gais fyddai'r mwyaf addas i'ch prosiect a'r ffioedd

sy'n berthnasol, cysylltwch â chorff rheoli adeiladu eich awdurdod lleol.

### Ceisiadau rheoliadau adeiladu ôl-weithredol

Gallwch hefyd wneud cais rheoli adeiladu ôl-weithredol ar gyfer gwaith sydd wedi'i wneud heb ganiatâd. Os yw'r gwaith wedi'i ddechrau – neu wedi'i gwblhau hyd yn oed – heb yr ardystiad gofynnol, gellir gwneud cais ôl-weithredol, cyn belled â bod y gwaith wedi'i wneud ar ôl 11 Tachwedd 1985.

Diben y broses yw rheoleiddio gwaith anawdurdodedig a chael tystysgrif unioni. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y bydd angen datguddio, tynnu a/neu gywiro gwaith i sicrhau cydymffurfiaid â'r rheoliadau adeiladu.

Mae'n bosibl unioni unrhyw waith ond dim ond gan dîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol y mae'r gwasanaeth hwn ar gael.

**Os ydych yn dal i fod yn ansicr am y llwybr gorau at gydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu, y peth gorau i'w wneud yw holi tîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol yn gyntaf. ■**





## J.G.B Electrics

Specialising in:

- ✓ Commercial Installations
- ✓ Domestic Installations
- ✓ Industrial Installations
  - ✓ EICR Domestic
  - ✓ EICR Commercial
  - ✓ EICR Industrial

**Mobile: 07713 179030**

**Email: [jasonborja@hotmail.co.uk](mailto:jasonborja@hotmail.co.uk)**

# Cynlluniau Unigolion Cymwys

Mae'r rheoliadau adeiladu'n caniatáu i rai mathau penodol o waith arbenigol, fel gosodiadau nwy a gwaith trydanol, gael eu hunanardystio drwy gynlluniau eraill i sicrhau ansawdd ac archwilio gwaith.

Os oes angen, byddant yn dweud wrth eich awdurdod lleol am y gwaith ar eich rhan. Byddant hefyd yn rhoi tystysgrif i chi o fewn wythwythnos ar ôl cwblhau'r

gwaith fel tystiolaeth o gydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu – bydd chwiliadau cyfreithwyr yn datgelu'r rhain os byddwch yn gwerthu eich cartref.



**M: 07388 232510**  
**E: enquiries@electrical22.co.uk**  
**W: www.electrical22.co.uk**


Electrical 22 is a Cardiff based company, fully qualified and insured, offering a service locally and to the surrounding areas.

We pride ourselves in offering a personal and professional service exceeding expectations.

We give free quotes, our prices competitive and standards high.

At Electrical 22 we offer a range of services from:

- full/part rewires
- new fuse boards
- replacing/adding sockets, switches and lights
- maintenance
- testing and inspection
- fault finding
- condition reports



We are specialists in:

- Extensions
- Loft Conversions
- Garage Conversions
- Building Services
- Plastering
- Bathroom refurbishment
- Kitchen Design/Refurbishment

River Gods is a respected name in bathroom and kitchen design throughout South Wales



We are recommended and endorsed by Which? Trusted Traders

📞 02920 484944 or 07403 119504

✉ info@rivergodscardiff.co.uk | 🌐 www.rivergodscardiff.co.uk



Mae cynlluniau unigolion cymwys yn rhoi gwarantau wedi'u hyswrio a bydd trefn gwyno ar gael os oes problem â'r gwaith.

Mae rhestr o bob math o waith y mae cynlluniau unigolion cymwys ar gael ar eu cyfer, a'u manylion cyswllt, ar gael yn yr adran Gwybodaeth Bellach ar dudalen 65.

I gael rhagor o wybodaeth am y Gofrestr Unigolion Cymwys, ewch i [www.competentperson.co.uk](http://www.competentperson.co.uk).

Os oes angen gwaith trydanol yn benodol, gallwch hefyd fynd i [www.electricalcompetentperson.co.uk](http://www.electricalcompetentperson.co.uk) (gweler yr erthygl ar wahân isod am ragor o wybodaeth am ddod o hyd i drydanwr). ■

### Dod o hyd i drydanwr

Os ydych yn chwilio am rywun i wneud gwaith trydanol yn eich cartref, mae'r offeryn ar-lein i chwilio am drydanwyr cymwys cofrestredig yn lle da i ddechrau: <http://www.electricalcompetentperson.co.uk/Choosing-An-Electrician>.

Mae'r holl drydanwyr cofrestredig sydd wedi'u rhestru ar y gronfa ddata hon wedi'u hawdurdodi i hunanardystio bod eu gwaith yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu. Mae hefyd yn golygu eu bod wedi bodloni gofynion mynediad caeth sy'n cael eu pennu gan weithredwr eu cynllun i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau cywir.



Ar ôl i chi ddod o hyd i'ch trydanwr, mae'r cynllun yn cynnig y cyngor canlynol:


- Cyn i'r gwaith ddechrau, cytunwch yn ysgrifenedig beth fydd y costau, y telerau talu ac amserlen y gwaith, gan gynnwys y dyddiad cwblhau disgwylidig. Dylai'r ddau barti lofnodi'r ddogfen hon.
- Os oes angen unrhyw addasiadau yn ystod y gwaith, cadarnhewch hyn yn ysgrifenedig a gofynnwch am ddyfynbris wedi'i addasu cyn i unrhyw newidiadau gael eu gwneud.
- Ceisiwch osgoi talu am wasanaethau mewn arian parod a gofynnwch am dderbynneb neu ddatganiad cyfrif bob amser.
- Dylech fynegi unrhyw bryderon sydd gennych i'r trydanwr, neu i oruchwyliwr/rheolwr y trydanwr, ar unwaith, gan nodi beth yn union sy'n peri pryder neu ofid i chi a beth yr hoffech iddo ddiwydd, i roi cyfle i'r trydanwr i gywiro'r broblem. Os na chaiff y sefyllfa ei datrys, dylech gysylltu â gweithredwr y cynllun unigolion cymwys y mae'n perthyn iddo.
- Dylai'r trydanwr roi tystysgrif gosodiad trydanol i chi ar ôl cwblhau unrhyw waith, beth bynnag oedd maint y dasg dan sylw, i ddangos bod y gwaith a wnaeth yn bodloni'r Safon Brydeinig ar gyfer diogelwch trydanol, BS7671.
- Ar gyfer unrhyw waith sy'n hysbysadwy o dan y rheoliadau adeiladu, dylech hefyd dderbyn tystysgrif i gadarnhau bod y gwaith yn bodloni'r rheoliadau adeiladu perthnasol.
- Cadwch y tystysgrifau mewn man diogel oherwydd gallai fod angen i chi eu darparu fel prawf bod y gwaith wedi'i wneud yn ddiogel, yn enwedig os ydych yn bwriadu gwerthu eich eiddo yn y dyfodol.

# DAVID A COURTNEY ARCHITECT

A Complete Architecture Service  
David Courtney is a chartered architect, registered in 1978 with the Architects Registration Board and having over 40 years of experience in the industry. From initial consultation to completion.

- Home renovations
- Residential designs
- New Builds
- Extensions
- Loft conversions
- Special needs adaptations

t: 029 2071 1000  
m: 07980 597565  
e: d.courtney@ntlworld.com



# stiwidio wen



## Pensaerniaeth

- Cartrefi newydd eu hadeiladu
- Estyniadau ac addasiadau atig
- Celsiadau cynllunio a rheoliadau adeiladu
- Adeiladau rhestredig ac ôl-osod ynni isel
- Cynlluniau cynaliadwy a gwastraff isel

Cysylltwch â ni i gael ymgynghoriad am ddim:

✉ elan@stiwidiowen.co.uk  
Tel: 02922 471330/ 07940246113  
Web: www.stiwidiowen.cymru



The builders to trust

Over 40 years  
experience

Highly  
Recommended

References  
available upon  
request



Before

### All building services:

- ✓ New Build ✓ Extensions ✓ Loft Conversions
- ✓ Supplying All Building Trades
- ✓ Fitted Kitchens ✓ Fitted Bathrooms
- ✓ Fitted Bedrooms

...and much more



After

T: 01446 750122 M: 07967 680933 E: steve@olivers2000.co.uk  
Please visit our website for more information [www.oliverspropertiesolutions.co.uk](http://www.oliverspropertiesolutions.co.uk)

# Caniatâd Cynllunio a Chaniatadau Eraill



## A oes angen caniatâd cynllunio arna'i?

Mae caniatâd cynllunio'n wahanol i gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu, ac fel rheol bydd yn berthnasol i brosiectau mwy sy'n cynnwys gwaith adeileddol allanol mawr neu brosiectau a allai effeithio ar eiddo cyfagos, er enghraifft, gwneud to'n uwch.

Bydd swyddogion cynllunio yn eich awdurdod lleol yn ystyried y canlynol:

- Lleoliad y prosiect
- Y safle

- Uchder a maint yr adeilad arfaethedig
- Canran y plot yr ydych yn dymuno adeiladu arno

Yn aml, caiff ceisiadau cynllunio eu cymeradwyo gydag amodau a bydd angen i'ch cyngor lleol gytuno â phob mater perthnasol cyn i chi ddechrau adeiladu.

Bydd yn cymryd o leiaf wyth wythnos i gael caniatâd cynllunio, ac weithiau fwy, ar ben yr amser y mae'n ei gymryd i baratoi'r cynlluniau i'w cyflwyno. Felly os ydych yn meddwl y bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer eich ▶



prosiect, dylech adael digon o amser fel na fydd yn dal eich prosiect yn ôl.

Mae'r Llywodraeth wedi cynhyrchu canllaw i system gynllunio'r Deyrnas Unedig. Ewch i [www.gov.uk/government/publications/plain-english-guide-to-the-planning-system](http://www.gov.uk/government/publications/plain-english-guide-to-the-planning-system)

Gallwch gael rhagor o wybodaeth a gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar-lein gan ddefnyddio'r Porth Cynllunio.

Ewch i [www.planningportal.co.uk](http://www.planningportal.co.uk) am ragor o fanylion.

## Hawliau datblygiad a ganiateir ac estyniadau

Mae'r Llywodraeth wedi cynhyrchu canllawiau defnyddiol i'ch helpu i ddeall sut y gallai rheolau datblygiad a ganiateir fod yn berthnasol i'ch amgylchiadau chi.

Ewch i <https://www.gov.uk/government/publications/permitted-development-rights-for-householders-technical-guidance#history> am ragor o fanylion.

Gellir cael gwybodaeth bellach am hawliau datblygiad a ganiateir o'r Porth Cynllunio, sy'n cynnig nifer o ganllawiau rhyngweithiol defnyddiol y gall perchenogion tai eu defnyddio i ddeall y mathau o ddatblygiad y

cânt eu gwneud heb orfod gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

Ewch i <https://interactive.planningportal.co.uk> am ragor o wybodaeth.

## Y Ddeddf Waliau Cydrannol

Gallai gofynion Ddeddf Waliau Cydrannol etc 1996 hefyd fod yn berthnasol i waith adeiladu ar eiddo; mae'r Ddeddf hon yn rhoi fframwaith i atal a datrys anghydfodau ynglŷn â waliau cydrannol, waliau ffin a gwaith cloddio yn agos at adeiladau cyfagos.

Os yw perchennog adeilad yn cynnig dechrau gwaith y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddo, mae'n rhaid rhoi rhybudd i berchenogion cyfagos am y bwriad yn y modd a nodir yn y Ddeddf. Gall perchenogion cyfagos gytuno neu anghytuno â'r cynnig dan sylw. Os ydynt yn anghytuno, mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith i ddatrys unrhyw anghydfodau.

Mae'r Ddeddf ar wahân i gael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu.

Mae canllawiau pellach am y Ddeddf Waliau Cydrannol ar gael yn: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/523010/Party\\_Wall\\_etc\\_Act\\_1996\\_-\\_Explanatory\\_Booklet.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/523010/Party_Wall_etc_Act_1996_-_Explanatory_Booklet.pdf) ■



**Beth yw wal gydrannol?**

Dyma'r prif fathau o waliau cydrannol:

- Wal sy'n sefyll ar diroedd dau (neu fwy) o berchenogion ac yn ffurfio rhan o adeilad – gall y wal fod yn rhan o un adeilad yn unig neu'n rhan o adeiladau ar wahân sy'n eiddo i berchenogion gwahanol
- Wal sy'n sefyll ar diroedd dau berchennog (neu fwy) ond heb ffurfio rhan o adeilad, fel wal gardd ond heb gynnwys ffensys pren
- Wal sydd ar dir un perchennog ond sy'n cael ei defnyddio gan ddau (neu fwy) o berchenogion i wahanu eu hadeiladau

Mae'r Ddeddf hefyd yn defnyddio'r term 'adeiledd cydrannol'. Gallai hyn olygu wal neu raniad lloriau neu adeiledd arall sy'n gwahanu adeiladau neu rannau o adeiladau sy'n eiddo i wahanol bobl, fel mewn fflatiau.

Mae'r Ddeddf yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Adeilad newydd ar y ffin rhwng dau eiddo
- Gwaith ar wal gydrannol neu adeiledd cydrannol sy'n bodoli
- Gwaith cloddio yn agos at, ac o dan, lefel sylfeini adeiladau cyfagos

Gall hyn gynnwys:

- Adeiladu wal newydd ar y ffin rhwng dau eiddo
- Torri i mewn i wal gydrannol
- Gwneud wal gydrannol yn uwch, yn fyrrach neu'n ddyfnach
- Tynnu brestiau simnai o wal gydrannol
- Taro wal gydrannol i lawr a'i hailadeiladu
- Cloddio o dan lefel sylfeini eiddo cymydog



# Dod o Hyd i Arbenigwyr



Os ydych yn credu y gallai estyniad neu drawsnewidiad ddiwallu eich anghenion, cam cyntaf unrhyw brosiect yw trefnu eich syniadau i ffurfio 'briff' dylunio.

Bydd briff dylunio da (gweler y panel ar wahân isod) yn taro cydbwysedd rhwng eich anghenion, y gofynion rheoleiddio ar gyfer y gwaith adeiladu a'r hyn y bydd yn realistig i'w gyflawni o fewn y gyllideb.

Mae nifer o ddewisiadau ar gael ar yr adeg hon, ond os yw eich prosiect yn sylweddol, mae bron yn sicr y bydd angen pensaer neu ddylunydd cymwysedig i wneud cynlluniau i chi. ▶

## Sut yr wyf yn ysgrifennu briff da?

Bydd llwyddiant eich prosiect yn y pen draw'n dibynnu ar ansawdd eich briff. Hwn yw eich gallu i ddisgrifio'n glir i'ch pensaer, ac i unrhyw weithwyr proffesiynol eraill, beth yw gofynion a swyddogaethau eich estyniad neu drawsnewidiad newydd, a'r dulliau arfaethedig ar gyfer gwneud y gwaith a'i reoli.

Dylai'r briff gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Eich amcanion
- Eich cyllideb
- Eich arddull dylunio: A ydych yn chwilio am ddyluniad sy'n cyd-fynd â'r adeilad sy'n bodoli? A hoffech ddyluniad cyfoes neu uwch-dechnoleg? A yw dyluniad cynaliadwy neu ecolegol yn bwysig i chi?
- Eich rhesymau dros gychwyn y prosiect hwn: Pa weithgareddau yr ydych yn bwriadu eu gwneud yno?
- Eich awdurdod: Pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau am y dyluniadau, y costau a'r gwaith adeiladu pan fydd y prosiect wedi'i ddechrau?
- Eich disgwyliadau cyffredinol: Beth ydych yn gobeithio ei gyflawni â'r prosiect hwn – mwy o le, mwy o olau, defnyddio'r lle mewn amrywiaeth o ffyrdd, mwy o hyblygrwydd?





Oni bai bod eich prosiect estyn neu drawsnewid yn syml iawn, mae'n gwneud synnwyr i o leiaf siarad â pensaer i gael cyngor cyn dechrau arni. A pensaer eich helpu i gael y gorau o'ch prosiect yn ystod y camau cynnar, beth bynnag yw ei faint ac a fydd ei angen yn ddiweddarach

ai peidio. Bydd y rhan fwyaf o benseiri'n cynnig ymgynghoriadau untro, sy'n gallu bod yn ddefnyddiol iawn. Gallant roi arweiniad am bob agwedd ar eich prosiect, o syniadau dylunio ac amcangyfrif costau i gynllunio a dulliau adeiladu. ▶

### Manteision penodi pensaer/dylunydd

Mae penseiri'n ddelfrydol i ddarparu cymorth i estyniadau a thrawsnewidiadau. Bydd angen sgiliau arbenigol gweithwyr proffesiynol eraill ar hyd y ffordd, ond mae gan benseiri'r arbenigedd i gynorthwyo yn ystod pob cam mewn prosiect adeiladu.

Gall pensaer siarad â chi am syniadau na fyddwch o reidrwydd wedi meddwl amdanynt o'r blaen, yn ogystal ag ystyriaethau cynnar, fel cyfeiriadedd y safle ac effeithlonrwydd egni. Wrth gynllunio eich prosiect, gallant asesu eich opsiynau a chanfod unrhyw gyfyngiadau posibl.

Mae prynu defnyddiau'n faes arall lle gall pensaer roi cymorth, yn ogystal â chanfod a gwerthuso gweithwyr proffesiynol eraill y gallai fod angen eu cynnwys yn y prosiect. Yn ogystal â chynhyrchu dyluniadau cysyniadol a thechnegol, gall eich pensaer eich helpu drwy'r broses gynllunio a rheoliadau adeiladu drwy wneud ceisiadau ar eich rhan a chael yr ardystiad gofynnol ar ôl cwblhau'r gwaith.



## A oes angen rheolwr prosiect arna'i?

Os yw eich prosiect estyn neu drawsnewid yn sylweddol, gallwch hefyd ystyried penodi rheolwr prosiect i reoli'r broses adeiladu ar eich rhan.

Bydd rheolwyr prosiect, sy'n gallu bod yn bensaer/dylunydd neu'n drydydd parti ar wahân, yn dileu llawer o'r drafferth ddyddiol ar

y safle, fel archebu defnyddiau a chysylltu â'r holl grefftwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. Hyd yn oed mewn estyniad un llawr, mae hyn yn gallu cymryd llawer o amser, felly os ydych yn gweithio'n llawn-amser neu os oes gennyh ymrwymiadau teuluol, gallai penodi rhywun i reoli'r prosiect ar eich rhan fod o gymorth.

Os ydych am i'ch pensaer/dylunydd fod yn rheolwr prosiect, bydd y ffioedd yn

### Dewis adeiladwr

Mae dod o hyd i adeiladwr da a dibynadwy'n hanfodol wrth adeiladu estyniad neu drawsnewid eich cartref. Ond sut mae chwilio am un?

#### Dibynnu ar argymhellion

Mae'n debyg mai argymhelliad personol gan aelod teulu, ffrind neu gymydog yw'r ffordd orau o gael tawelwch meddwl eich bod yn gweithio gyda rhywun proffesiynol. Mae crefftwyr eraill hefyd yn gallu rhoi cyngor da, oherwydd dylent adnabod rhwydwaith o adeiladwyr lleol. Fel arall, gallwch ofyn i dîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol eich rhoi ar y trywydd iawn.

#### Cymdeithasau masnach

Mae'n debyg mai Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr (FMB) yw'r gymdeithas fasnach fwyaf adnabyddus yn y diwydiant adeiladu. Byddant yn gwirio geiradaon aelodau newydd ac yn disgwyl iddynt gynnal safonau penodol a dilyn cod ymddygiad.

Mae hefyd yn werth taro golwg ar Urdd yr Adeiladwyr a'r Contractwyr; mae'n rhaid i adeiladwyr sy'n gwneud cais i fod yn 'aelodau dibynadwy' ddangos eu bod wedi bod yn masnachu am dair blynedd a darparu tystlythyrau ariannol. Mae pob aelod hefyd yn cytuno i ddarparu contractau ysgrifenedig a chynlluniau talu clir.

Mae bod yn aelod o Ffederasiwn Cenedlaethol yr Adeiladwyr hefyd yn arwydd da. Mae disgwyl i'r aelodau llynu at god ymddygiad, yn ogystal â darparu geiradaon, felly mae aelodaeth yn arwydd da bod eich adeiladwr yn gymwys. Mae'r Ffederasiwn hefyd yn cynnig trefn gwyno ac mae gan bob aelod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

#### Rhybuddion

Dylech fod yn wyladwros os gall adeiladwyr ddechrau ar unwaith neu os ydynt yn gwneud cynigion arbennig o isel, oherwydd gall hyn olygu y byddant yn torri corneli neu'n ychwanegu costau ychwanegol ar ôl dechrau eich prosiect.

Pa bynnag ddull yr ydych yn ei ddefnyddio i chwilio am eich adeiladwr delfrydol, mae'n werth cael o leiaf dri dyfynbris cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Gwnewch yn siŵr bod pob dyfynbris yn cynnwys defnyddiau, llafur, amserlenni, cyfrifoldebau, gan gynnwys pob is-gontractio, ac wrth gwsr, TAW.

Peidiwch byth â thalu'n llawn ymlaen llaw am waith. Cytunwch ar drefn dalu a pheidiwch â thalu'r swm terfynol nes eich bod yn fodlon bod y gwaith wedi'i gwblhau at safon foddhaol. Byddwch yn arbed llawer o drafferth i chi eich hun yn y pen draw drwy gytuno â chontract yn ysgrifenedig. Bydd hyn yn atal unrhyw gostau annisgwyl rhag ymddangos ar ddiwedd y prosiect.







uwch na phe baech yn penodi contractwr dylunio/adeiladu, ond dylech arbed arian mewn taliadau i gontractwyr adeiladu. Dylai fod gan reolwyr prosiect gymhwyster cydnabyddedig mewn disgyblaeth adeiladu a phrofiad o reoli adeiladwyr, crefftwyr a logisteg, a dylent berthyn i sefydliad proffesiynol fel y Gymdeithas Rheoli Prosiectau. Yn ddelfrydol, bydd eich rheolwr prosiect yn gymharol leol, â gwybodaeth gadarn am grefftwyr, adeiladwyr, cyflenwyr adeiladwyr ac ati yn yr ardal, er mwyn gallu bod ar y safle'n rheolaidd a chyfarfod â chrefftwyr a gweithwyr proffesiynol wyneb yn wyneb.

## Dod o hyd i adeiladwr da

Pan fyddwch wedi cadarnhau manylion eich prosiect ac yn hapus â'ch gwybodaeth am y broses i'w dilyn, bydd rhaid i chi wneud un o'ch penderfyniadau pwysicaf – pwy fydd yn gwneud y gwaith adeiladu. Bydd dod o hyd i adeiladwr dibynadwy'n allweddol i lwyddiant cyffredinol eich prosiect.

Os ydych yn barod i wneud ychydig o ymchwil cefndir, ni ddylai fod yn rhy anodd dod o hyd i adeiladwr proffesiynol, er y gallech orfod aros am dipyn cyn iddynt allu

dechrau – bydd adeiladwr da'n brysor o hyd ac efallai y bydd wedi trefnu i wneud gwaith arall fisoedd ymlaen llaw.

Mae'n debyg mai argymhellion gan aelod teulu neu ffrindiau yw'r ffordd orau o ddod o hyd i adeiladwr da – os yw wedi gwneud gwaith da o'r blaen, nid oes rheswm i feddwl na wnaiff hynny eto.

Gall cyfeiriaduron masnach ar-lein fod yn adnodd defnyddiol i ddod o hyd i adeiladwyr lleol, ond mae'r holl ddewis yn gallu bod yn ddruslyd, felly mae'n werth edrych ar wefannau adeiladwyr i gael gwybodaeth bellach a gweld eu gwaith blaenorol, geirdaon ac ati.

Mae gwefannau cymdeithasau masnach yn gallu bod yn ffynhonnell dda arall i ddod o hyd i adeiladwyr proffesiynol (gweler yr erthygl yn y blwch 'Dewis Adeiladwr' ar gyferbyn).

Cofiwch, mae'r mwyafrif llethol o adeiladwyr yn ddibynadwy ac mae ganddynt enw da, ond mae'n werth gwneud ychydig o ymchwil cefndir – fel hyn, gallwch wneud penderfyniad doeth ynglŷn â phwy i'w dalu i adeiladu eich prosiect. ■

# L J Rhodes Roofing Systems Ltd

Roofing & Leadwork Specialists



- New Roofs • Slate / Tile Roofs • Specialist Leadwork / Fabrication
- EPDM Flat Roofing (20 year Manufacturers Warranty) • Velux Windows
- Chimneys Rebuilt / Removed / Repointed / Relead • Loft Insulation
  - Roof Repairs of any size • UPVC Fascias, Soffits, Guttering
  - Loft Conversions • Solar Panels

*The company produces a totally professional package from survey, specifications and quotation. Our company is based on the belief that our customer needs are of the utmost importance. We would welcome the opportunity to earn your trust and deliver you the best service in the industry.*

**Tel: 02920 462970 Mob: 07774 497883 Email: [info@ljrhodesltd.co.uk](mailto:info@ljrhodesltd.co.uk)**



T: 02920 916430 | M: 07811 952761  
[sales@greenfieldcontractors.co.uk](mailto:sales@greenfieldcontractors.co.uk)

## PROFESSIONAL BUILDING & LANDSCAPING SPECIALISTS BASED IN CARDIFF

### SERVICES

Extensions, Kitchen Fitting, Bathroom Fitting, Minor Repairs, Loft/Garage Conversions, Roofing, Timber Structures, Block/Brick Walls, Patios, Decking, Block Paving, Driveways, Drop Kerbs, Fencing, Rendering.



# Adeiladu Estyniad

Mae'n rhaid i'ch cartref addasu wrth i'ch anghenion newid dros amser, felly os oes angen mwy o le arnoch ar gyfer teulu sy'n tyfu neu berthynas oedrannus, gallai adeiladu estyniad fod yn ddewis arall dichonadwy yn hytrach na straen a thrafferth symud tŷ.



Mae llawer o bobl yn dal i ddewis adeiladu estyniad heb ddeall yn llawn y materion y byddant yn eu hwynebu ar hyd y ffordd o ran y gyfraith, cynllunio ac adeiladu. Felly, cyn dechrau, mae'n well i chi gael syniad da o'r hyn y mae adeiladu estyniad yn ei olygu mewn gwirionedd.

Un o'r cwestiynau cyntaf yr ydych yn debygol o'u gofyn i chi eich hun yw a fydd estyniad yn ychwanegu at werth eich cartref. Mae'n debyg mai gwerthwyr tai lleol sydd yn y sefyllfa orau i roi amcangyfrif i chi o faint o werth y gallai'r estyniad ei ychwanegu pan fydd wedi'i gwblhau. ▶

## **JETNOR ELIZI PLASTERING LTD**

- Plastering and rendering
- Interior and exterior

Provide finishes of the highest quality from start to completion, we deliver a prompt, efficient and courteous service.

17 years experience

*Free estimates*

**Call 07988 455215**



Yn amlwg, bydd y costau'n dibynnu ar faint eich prosiect ac a yw'n estyniad un neu ddau lawr. Fel rheol, caiff costau adeiladu eu cyfrifo fesul metr sgwâr ond gall prisiau hefyd amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar y rhan o'r wlad lle'r ydych yn byw.

Bydd ansawdd y defnyddiau ac unrhyw ddarnau gosod a gosodiadau newydd yn ffactorau cost eraill i'w hystyried.

## Ystyriaethau dylunio

Mae angen i berchenogion tai sy'n ystyried estyniad ddiffinio eu hamcanion yn gynnar yn y broses a pharatoi briff realistig gan gynnwys y gyllideb hollbwysig ac amserlen y gwaith. Dylai'r briff ganolbwyntio ar beth hoffai'r perchennog tŷ ei wneud yn yr estyniad, yn hytrach na sut y dylid ei ddylunio.

Dylech hefyd gael cyngor proffesiynol. Drwy ymgynghori'n gynnar â phenseiri, adeiladwyr, yr adran gynllunio a'ch tîm rheoli adeiladu, gallwch ganfod a fydd maint a

graddfa'r estyniad yn dderbyniol ac a fydd yn fforddiadwy.

Mae ffioedd penseiri'n gallu ymddangos yn ddud i rai perchenogion tai, ond maent yn tueddu i fod yn gymharol isel o gymharu â'r costau adeiladu cyffredinol a gall cyfraniad a phrofiad y pensaer ar y cam cysyniad fod yn amhrisiadwy ac mae'n debygol o arbed arian yn y pen draw.

O ran cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu, dyma rai pethau i'w hystyried ar y cam dylunio:

- Sut y byddwch yn mynd i weddill y cartref ac i'r ardd
- Sut y bydd pobl yn symud yn y tŷ ac o'i gwmpas
- Golau naturiol yr ystafelloedd sy'n bodoli.
- Pa ddefnyddiau yr ydych am eu defnyddio
- Cynigion i uwchraddio perfformiad thermol gweddill y tŷ.

## Rheoliadau cynllunio ac adeiladu

Efallai na fydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer rhai estyniadau llai, ond bydd rheoliadau adeiladu yn berthnasol i'r mwyafrif o estyniadau, oni bai bod yr adeilad neu'r estyniad yn cael ei ystyried yn eithriadig. Bydd y rheoliadau adeiladu'n berthnasol i'r adeiledd, diogelwch tân, effeithlonrwydd egni, inswleiddio, awyru a defnyddiau – felly mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r rheolau.

Dyma rai materion yn ymwneud â'r rheoliadau adeiladu sy'n debygol o godi yn ystod y cyfnod adeiladu:

### Sylfeini

Mae'n rhaid i sylfeini drosglwyddo llwyth neu bwysau'r estyniad yn ddiogel i'r ddaear. Bydd dyfnder y sylfeini'n dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys y lleoliad ac amodau'r ddaear, ac a oes unrhyw goed, draeniau a/

neu garthffosydd, ac unrhyw adeiladau cyfagos i'w hystyried.

### Llawr

Bydd angen i lawr ddarparu adeiledd sy'n gallu cynnal cynnwys yr ystafell a'i defnyddwyr, a gwrthsefyll lleithder o'r ddaear a cholledion gwres (inswleiddio thermol).

Yn gyffredinol, caiff dau fath o adeiladwaith llawr eu defnyddio mewn estyniadau: solet a chrog.

Ar gyfer lloriau solet, mae angen adeiladu'r llawr mewn haenau ac fel rheol byddai'n cynnwys rhan isaf wedi'i gwneud o graidd caled cryno, tywod, pilen wrthleithder, defnydd inswleiddio a choncrit.

Fel rheol, bydd lloriau crog wedi'u gwneud o ddau ddefnydd – naill ai distiau pren neu system trawstiau concrit sydd yna'n cael eu gorchuddio â naill ai estyll llawr neu ddalenni tafod a rych o ansawdd da.

Ceir nifer o amrywiadau ar y mathau hyn o lawr, gan ddibynnu'n bennaf ar ►



sut yr ydych yn bwriadu defnyddio'r llawr a'r gorffeniad sydd ei eisiau.

Os oes angen mwy o arweiniad arnoch am y math o lawr y bydd ei angen, cysylltwch â thîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol.

## Waliau

Bydd waliau'r estyniad yn cynnal llwythi'r lloriau a'r to, ac mae'n rhaid iddynt gadw'r tywydd allan yn ogystal â darparu ynysiad thermol.

Wal geudod yw'r math mwyaf cyffredin o adeiladwaith wal ar gyfer estyniad. Fel rheol, bydd waliau ceudod wedi'u hadeiladu o frics a blociau sy'n cael eu llenwi â defnydd inswleiddio addas wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Dylid darparu'r canlynol hefyd:

- Bwtresi digonol at yr eiddo sy'n bodoli
- Linteri dros bob agoriad
- Rhwymau wal i uno'r waliau ceudod â'i gilydd
- Cwrs gwrthleithder addas
- Os ydych yn adeiladu yn erbyn tŷ cymydog, mae angen gwrthsefyll sain yn ddigonol hefyd.

## Rhagofalon tân

Mae sicrhau bod gan bobl ffordd o ddianc rhag tân yn un o brif bileri'r rheoliadau

adeiladu. Dylai fod gan ystafelloedd sydd ddim yn agor yn uniongyrchol i mewn i gyntedd, a phob ystafell drigiadwy ar y llawr cyntaf mewn estyniad dau lawr, ffenestr neu ddrws sy'n ddigon mawr i bobl ddianc drwyddynt pe bai tân yn digwydd. Mae'n rhaid i ffenestri fod ag agoriad clir o leiaf 0.33m<sup>2</sup> ac mae'n rhaid iddynt fesur o leiaf 450mmx450mm. Mae'n ofynnol gosod systemau canfod mwg sy'n cael eu pweru gan y prif gyflenwad drwy'r estyniad i gyd a'u cysylltu â system wrth gefn wedi'i phweru gan fatri.

## Materion draenio

Y mater allweddol o ran draenio yw'r cysylltiadau â'r draeniau a'r cyflenwad dŵr sy'n bodoli. Gellir rhannu draeniau'n ddau brif fath – dŵr budr a dŵr glaw – ac mae'n rhaid cadw'r rhain ar wahân. Mae draeniau dŵr budr fel rheol yn rhedeg i garthffos gyhoeddus drwy beipiau tanddaearol. Gellir mynd at y rhain drwy dyllau archwilio. Gall draeniau dŵr glaw neu ddŵr arwyneb arwain i system ddraenio annibynnol arall neu i ffos gerrig. Felly, mae'n well i chi wirio ag adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol a'r cwmni cyfleustodau dŵr pa fath o ddraeniau dŵr arwyneb

### Tir halogedig a radon

Mewn rhai ardaloedd o'r wlad, gallai fod rhywfaint o halogiad yn y tir lle mae nwyon yn ffurfio, fel hen safleoedd tirlenwi. Efallai y bydd angen i chi hefyd amddiffyn rhag radon, nwy di-liw, diarogl sy'n gallu bod yn beryglus os yw'n cronni mewn adeilad. Mae angen awyru'r nwyon hyn a bydd angen pilen nwy i'w hatal rhag mynd i mewn i'r adeilad.



# NEWPORT ELECTRICAL SERVICES

Give us a call on 07413 004786  
[info@newportelectrical.co.uk](mailto:info@newportelectrical.co.uk)  
[www.newportelectrical.co.uk](http://www.newportelectrical.co.uk)

## General Electrical Services


From moving plugs to installing new light fittings

## Smart Home Automation

Here to get your home up-to-date

## Electrical Rewiring

We can rewire your home




# GOODE Building Services

### All building work undertaken:

Loft Conversion and Extension Specialist, Bathrooms, Kitchens, Rendering, Plastering, Garden Walls, Roofing, Brickwork, Stonework Specialist, Groundworks, Stud Partitions, Flooring, Fire and Flood Renovations, Car Ports, Piling, Underpinning, Paths, Patios, Conservatory, Window Fitting, Front Door Replacements, UPVC specialist, Full Guts of Properties, Projects Managed From Conception to Completion, New Builds, Brick and Concrete Structural Repairs, Foundations, Cladding, Core Drilling, Staircases, Tiling, Leadwork, Window and Door Fitting Specialist.

**07955 501357**  
[goodebuildingservices@gmail.com](mailto:goodebuildingservices@gmail.com)



# DESIGNER WINDOW COMPANY

Transforming Homes across South Wales with over 25 Years Experience meeting every individual need, design and budget.



- Windows & Doors, Conservatories
- Loft Conversions, Extensions
- Kitchens, Carpentry
- All Building Work Undertaken

**01633 484813 / 07989358744**  
[www.designerwindowcompany.co.uk](http://www.designerwindowcompany.co.uk)  
 Facebook page: Designer Window Company





sydd yno – i system ddraenio annibynnol arall neu i ffos gerrig. Felly, mae'n well i chi wirio â thîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol a'r cwmni cyfleustodau dŵr pa fath o ddraeniau dŵr arwyneb sydd wedi'u cyflenwi i'ch eiddo a sut y dylid draenio unrhyw ddŵr arwyneb newydd. Bydd angen cysylltu â chwmnïau cyfleustodau dŵr os ydych yn adeiladu estyniad dros garthffos. Os yw'n cael ei adeiladu dros garthffos a rennir, neu hyd yn oed yn agos ati, bydd angen dogfen cytundeb ar gyfer y gwaith a gall hon fod yn ddrud, yn enwedig os teimlir bod angen symud y garthffos neu fod angen twll archwilio.

## Offer trydanol

Bydd angen i berchenogion tai ddangos bod pob gwaith trydanol yn cydymffurfio â Rhan P (Diogelwch Trydanol) y rheoliadau adeiladu. Gellir gwneud hyn drwy hunanardystiad gan osodwr sy'n aelod o un o'r cynlluniau hunanardystio unigolion cymwys trydanol. Pan fydd y gwaith wedi'i orffen, dylech gael tystysgrif cydymffurfiad i gadarnhau bod y gwaith yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu.

**Ewch i <https://www.gov.uk/government/publications/electrical-safety-approved-document-p> i gael gwybodaeth bellach am Ran P y rheoliadau adeiladu.**

## Gwresogi

I wneud yr ystafell mor ddefnyddiol â phosibl, mae'n debygol y byddwch am osod gwresogi yn eich estyniad. Y ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yw estyn y system gwres canolog bresennol ond bydd angen i chi wirio â'ch plymwr neu eich peiriannydd gwresogi i sicrhau bod eich boeler presennol yn ddigon pwerus i wasanaethu unrhyw wresogyddion ychwanegol.

## Ffenestri a drysau

Rhaid gosod unedau gwydr dwbl sy'n effeithlon o ran egni ym mhob ffenestr newydd. Mae'r rheoliadau adeiladu hefyd yn pennu y dylai gwydrau mewn drysau ac o'u cwmpas, a phob gwydr hyd at 800mm o lefel y llawr, fod yn wydr gwydn neu'n wydr diogelwch i atal pobl rhag brifo eu hunain.

## Awyru

Bydd angen awyru digonol ym mhob ystafell newydd mewn estyniad am resymau iechyd cyffredinol, a bydd y math o ystafell a'i chyfaint yn pennu faint o awyru sydd ei angen.

Mae dwy reol gyffredinol ar gyfer awyru ystafell: gwacáu – caiff hyn ei gyflawni drwy agor y ffenestr; ac adeilad cyfan – enw arall ar hyn yw awyru 'diferu', sy'n cael ei gynnwys yn fframwaith y ffenestr, neu mewn rhyw fodd arall.

Mae angen y ddau fath o awyru fel rheol, ond gall dulliau awyru eraill fod yn dderbyniol, cyn belled â bod tîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol yn cytuno. Bydd angen i unrhyw system fecanyddol y dymunwch ei defnyddio fodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y rheoliadau adeiladu.

Dylid darparu modd awyru echdynnu yn unrhyw gegin, ystafell ymolchi (neu ystafell gawod), ystafell amlbwrpas neu doiled newydd er mwyn lleihau anwedd a chael gwared ar arogleuon. ▶

# Steve Robinson Roofing Services

- 24 hour emergency call out
- Brickwork
- Carpentry
- Chimneys Fascias & Soffits
- Felt
- Fiberglass
- Flat Roofing
- Guttering
- Industrial Sheeting & Cladding
- Lead
- Liquid
- New Work
- Pitched Roofing
- Strip & Replace
- Tile

5 Rockwood Road, Ty-Rhiw, Taffs Well  
Cardiff, Wales CF15 7SB

**Phone: 02920 810265 or 07970 653327**

**Email: [steve-robinson3@sky.com](mailto:steve-robinson3@sky.com)**

**[www.steverobinsonroofingservices.co.uk](http://www.steverobinsonroofingservices.co.uk)**





Y gofyniad lleiaf i gydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu yw ffenestr sy'n agor ag awyrell 'diferu', sy'n gywerth ag o leiaf 1/20 rhan o arwynebedd llawr yr ystafell.

Bydd angen gosod gwyntyllau echdynnu mewn unrhyw ystafelloedd ymolchi neu gawod newydd lle nad oes ffenestri sy'n agor – dylai'r rhain gael eu rheoli gan y switsh golau ag amseryddion gor-reddeg sy'n caniatáu i'r wyntyll aros ymlaen ar ôl i'r golau gael ei ddiffodd.

## Toeon

Wrth ddylunio eich estyniad bydd angen ystyried y math o do, sut i'w inswleiddio a'i gynnal, a'r uchdwr. Bydd y to wedi'i ddylunio i gadw'r elfennau allan yn bennaf, a bydd rhaid iddo gynnal ffabrig y to ac efallai technolegau adnewyddadwy fel paneli solar.

Yn gyffredinol, mae dau fath o do'n addas i estyniadau – fflat ac ar ongl.

### Toeon fflat

Mae toeon fflat i'w gweld ar estyniadau un llawr fel rheol, ac yn gallu darparu datrysiad ymarferol a darbodus i berchenogion tai.

Yr elfennau allweddol o safbwynt y rheoliadau adeiladu fydd maint distiau'r to, eu cynhaliad a sut y mae'r to wedi'i inswleiddio a/neu ei awyru.


### Toeon ar ongl

Mae toeon ar ongl yn adeileddau llawer mwy na tho fflat ac mae dau fath:

- Toeon ceibrau cypledig: Mae'r math hwn o do'n darparu'r fframwaith adeileddol i gynnal ffabrig y to.
- To traddodiadol: Fel rheol, caiff y math hwn o adeiledd to ei ddylunio gan bensaer neu beiriannydd adeileddol oherwydd bydd maint y prennau a'r trawstiau sy'n eu cynnal yn dibynnu ar lwythi a lledau penodol

### Grisiau, rheiliau llaw a balwstradau

Fel rheol, bydd lled grisiau rhwng 850-1,000mm (nid yw'r rheoliadau adeiladu'n pennu isafswm



**Our services include:**

- Roofing
- Brick laying
- Stone masonry
- Maintenance operatives
- Painting and decorating
- Construction/ Renovation
- Scaffolding for high sign boards and advertisement holdings

**t: 07944 985116**

**e: [info@hi-viewscaffolding.co.uk](mailto:info@hi-viewscaffolding.co.uk)**

**w: <https://hi-viewscaffolding.co.uk>**



**Commercial, Industrial  
and Domestic  
Electrical Contractors  
and Engineers**



**Mobile: 07952 917883  
Tel: 01633 768511**

**AshOak Construction Ltd**  
Kitchen and Bathroom Specialists

Looking for a contemporary,  
luxurious and tailored kitchen?

**Look no further!**

Well established  
specialists providing a  
bespoke fitting service

**E: [info@ashoakconstruction.co.uk](mailto:info@ashoakconstruction.co.uk)**  
**T: 01683 816488/07980 859127**  
**W: [www.ashoakconstruction.co.uk](http://www.ashoakconstruction.co.uk)**

★★★★★ 5.0 on yell.com  
★★★★★ 5.0 on facebook.com

Unit RW8 Fern Close, Pen-Y-Fan Industrial Estate, South Wales NP11 3EH

**C. Campbells**  
— CARPENTRY —  
& CONSTRUCTION

With over 20 years experience I specialise in the home improvement sector. We offer a free and friendly advice service and quotation on request.

**Call on: 07935 104512**  
**[c.campbellscarpentry@gmail.com](mailto:c.campbellscarpentry@gmail.com)**

lled) a bydd uchafswm yr ongl yn 42 gradd. Ni ddylai codiad gris ddomestig fod yn fwy na 220mm a dylai fod y gofod llorwedd o leiaf 220mm. Dylai fod o leiaf ddaud fetr o uchdwr dros linell goleddf y gris. Dylai rheiliau llaw a balwstradau ar ymyl grisiau ac ar ben y grisiau fod o leiaf 900mm o uchder. Ni ddylai'r lled rhwng balwstradau ganiatáu i sffêr 100mm fynd drwodd, ac ni ddylai fod yn bosibl ei ddringo.

## Effeithlonrwydd egni

Mae effeithlonrwydd egni wedi dod yn rhan bwysicach a phwysicach o'r rheoliadau adeiladu. Bydd hyn yn effeithio ar eich dewisiadau o ran ffenestri, adeiladwaith wal, inswleiddio, gwresogi ac awyru. Gallai hyn gael effaith fawr ar ddyluniad a chost eich estyniad. Er enghraifft, mewn estyniad â llawer o wydr, gallai fod angen gwydr triphlyg i fodloni gofynion effeithlonrwydd egni. ■

### Adeileddau allanol eraill

Mae llawer o ystafelloedd gwydr, tai haf, siediau ac adeiladau allanol yn gallu cael eu hadeiladu heb gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu. Y rheol gyffredinol yw os ydynt yn llai na 30m<sup>2</sup>, wedi'u hadeiladu o ddefnydd sydd ddim yn hylosg, neu wedi'u gwahanu o adeiladau neu dir cyfagos ac nad ydynt yn cynnwys llety cysgu, na fydd angen cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu – ond mae'n well gwirio hyn â'ch tîm rheoli adeiladu lleol yn gyntaf cyn dechrau gwaith.

Er mwyn i adeiledd gael ei ddsbarthu'n ystafell wydr, mae'n rhaid i ffenestri orchuddio o leiaf 50% o arwynebedd y waliau ochr ac o leiaf 75% o'r to. Hefyd, dylai fod drws allanol yn ei wahanu oddi wrth weddill y tŷ. Gellir adeiladu sylfeini a lloriau ystafelloedd gwydr mewn amrywiaeth o ffyrdd, ond mae angen ystyried amodau'r ddaear, coed a draeniau sy'n bodoli.

Oherwydd eu maint cymharol fach, ni fydd angen cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar byrth un llawr o flaen eiddo cyn belled â bod drws yn gwahanu'r porth a'r tŷ, oni bai bod y porth wedi'i wresogi, neu fod angen bodloni unrhyw amodau o ran ei adeiledd, ei hygrychedd neu ei ddraenio.



## Damp Problems?

We specialise in damp proofing, waterproofing & timber preservation.

We are ready to satisfy your project requirements.

**Call Us:**

**01633 492658**

**07542 529734**

[www.dampdefence.co.uk](http://www.dampdefence.co.uk)

Damp Proofing

Timber Treatment

Waterproofing

Penetrating Damp

Masonry Repairs

Renovation

## OUR SERVICES

- ✓ Architraves ✓ Built In Furniture
- ✓ Door Fitting / Hanging ✓ Barn Conversion
- ✓ Designed / Installed Joinery ✓ Truss Roofing
- ✓ Skirting ✓ Kitchens ✓ Stud walls
- ✓ All aspects of 1st and 2nd fix carpentry
- ✓ Cabinet Makers / Handmade Furniture
- ✓ General Carpentry ✓ Emergency Carpenter
- ✓ Handmade Kitchens ✓ Log Cabins
- ✓ Staircases 3 Wooden / Timber Structures
- ✓ Roofs ✓ Doors

**With 10 years of experience, you can be sure of professional quality, everytime!**

**T: 07450 853896**

**E: [enquiries@elizapropertyltd.co.uk](mailto:enquiries@elizapropertyltd.co.uk)**

**W: <https://elizapropertyltd.co.uk>**

# Trawsnewid Atig



Mae trawsnewid atig yn gallu bod yn ffordd wych o ddefnyddio lle ychwanegol yn eich cartref a gall achosi llai o darfu nag adeiladu estyniad rheolaidd ar y llawr gwaelod. Fodd bynnag, mae atig wedi'i thrawsnewid yn wael yn gallu lleihau gwerth eich eiddo ac mewn rhai achosion gallai beryglu eich diogelwch a chyfarwydd adeileddol eich cartref.

Mae trawsnewid atigau at safon dda'n gallu cynyddu gwerth cartref hyd at 20% ac ychwanegu hyd at 30% yn fwy o le i fyw ynddo mewn tŷ. Bydd pecyn trawsnewid atig sy'n cynnwys atgyfnerthu'r llawr, ffenestri yn y to, mwy o inswleiddio, grisiau, trydan, golau, gwres a diogelwch tân yn fuddsoddiad sylweddol. Bydd gosod ffenestr ddormer neu addasu adeiledd y to'n cynyddu'r gost, ac mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio arnoch hefyd.

## Pethau i'w hystyried cyn i chi ddechrau

Y cam cyntaf i drawsnewid unrhyw atig yw asesu a fydd y lle yn eich to'n addas i'w drawsnewid. Mae angen gwirio tri mesuriad allweddol yn yr atig:


- Yn ddefnyddol, dylai'r uchder mewnol fod o leiaf 2.5 metr.
- Ongl neu oledf y to, oherwydd bydd yr uchdwr yn dibynnu ar hwn. ▶





from the only cavity tray specialist holding both LABC Product Type Approval and European Technical Approval.

### Type X




#### New-Build or Existing Stepped and Staggered Gable Abutments?

The external skin of stepped and staggered gable abutments changes status below the roof line where it becomes an internal skin. Therefore the construction must prevent rainwater and dampness from penetrating below the critical abutting roof line.

The high performance Type X Cavity Tray ensures a correct and known quality of build. Every tray is a self-contained unit, with features to guard against damp ingress such as an adjusting cavity upstand that will always provide cavity width compatibility.

Each tray has its own ready-shaped lead flashing attached. (Select long leads to dress directly over tiles, or alternatively short leads to dress over the upstand of a secret gutter or soaker). Type X trays are handed, to suit left hand slopes and right hand slopes. Models available for new build and existing walls, in all masonry styles and courses.

### Type E



#### Adding a Flat Roof Extension?

The preformed Cavity Tray is easily inserted into an existing cavity wall above the intersection of a newly-abutting flat roof. The Type E requires only one course of bricks to be disturbed, with just a few bricks removed at any time.

Self-contained Type E Cavity Trays are the length of two bricks and clip together. Long runs are easily and quickly created. Preformed angles cater for corners and piers. Each unit has stand-alone discharge via a weep.

The cavity upstand of the Type E is memory-hinged and adjusts to always suit the 'as found' cavity width.



**Tel 01935 474769**

[enquiries@cavitytrays.co.uk](mailto:enquiries@cavitytrays.co.uk)  
[www.cavitytrays.com](http://www.cavitytrays.com)



- Yn ddefnyddiol, dylai fod y llawr o leiaf 5,5 metr o led (gan gynnwys unrhyw simnai) a 7.5 metr o'r blaen i'r cefn.

## Ystyriaethau dylunio

Ar ôl penderfynu bod eich atig yn addas i'w thrawsnewid, y peth pwysicaf i feddwl amdano yw sut yr ydych yn bwriadu

defnyddio'r lle, gan y dylai'r briff dylunio fod yn seiliedig ar hyn. Yn y rhan fwyaf o drawsnewidiadau atig domestig, nid oes llawer o le ac yn aml gall ongl y to gyfyngu ar symudiad. Os ydych yn ddigon ffodus i fod â lle i ystafell ymolchi neu ystafell gawod, meddyliwch sut y gallai gysylltu â'r system ddraenio sy'n bodoli.

### Diogelwch tân mewn trawsnewidiadau atig

Mae diogelwch tân a sut i ddianc rhag tân yn elfennau allweddol yn y rheoliadau adeiladu, ac mae hyn yn arbennig o wir am drawsnewidiadau atig.

Os ydych yn trawsnewid atig tŷ un llawr, fel byngalo, bydd angen gosod ffenestr dianc ym mhob ystafell drigiadwy ar lefel y llawr cyntaf. Dylai fod gan y rhain agoriad clir o leiaf 0.33m<sup>2</sup> a dylent fesur o leiaf 450mmx450mm, a dylid gosod colfachau arnynt sy'n caniatáu i'r ffenestr agor yn llawn.

Ni chaniateir ffenestri dianc os ydych yn trawsnewid atig tŷ dau llawr. Y prif risiau fydd y ffordd o ddianc o'r eiddo, felly bydd angen eu hamddiffyn yn ddigonol rhag tân. Dylai pob drws sy'n agor i'r grisiau fod â chyfraddiad tân 20 munud o leiaf a dylai'r grisiau ddiweddu mewn cyntedd â drws yn uniongyrchol i'r tu allan. Fel dewis arall yn lle hyn, gallech ystyried datrysiad peirianeg tân.

Os oes gan eich tŷ dri llawr eisoes a'ch bod yn dymuno ychwanegu rhagor o lorïau, mae trawsnewid atig yn mynd yn llawer mwy cymhleth o safbwynt diogelwch tân. Mae'n debygol y bydd angen i chi osod system ysgeintellau neu efallai ail risiau dianc, a bydd angen i'r mathau hyn o drawsnewid atig gael eu dylunio'n arbenigol gan bensaer neu beiriannydd adeileddol i sicrhau bod risg tân yn cael ei leihau.





## Cymeradwyaeth cynllunio a rheoliadau adeiladu

Ni fydd angen caniatâd cynllunio fel rheol i drawsnewid atig, oni bai eich bod yn estyn y lle yn y tu neu'n byw mewn Ardall Gadwraeth neu mewn eiddo rhestredig. Mae'n well holi eich adran gynllunio leol i ddeall beth y cewch ei wneud. Caiff y rhan fwyaf o addasiadau atig eu hystyried yn ddatblygiadau a ganiateir, cyn belled ag nad ydynt yn fwy na 50 metr ciwbig mewn tŷ ar wahân neu dŷ pâr, neu 40 metr ciwbig mewn tai teras.

## Rheoliadau adeiladu

Pan fyddwch yn trosi llofft yn ofod byw, bydd angen cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu arnoch. Bydd y rheoliadau'n sicrhau bod cryfder adeileddol y llawr newydd yn ddigonol ac na fydd yn peryglu sefydlogrwydd yr adeiledd sy'n bodoli. Bydd angen cadw at reolau diogelwch tân caeth hefyd (gweler yr erthygl yn y blwch allanol 'Diogelwch tân wrth drawsnewid atig' ar dudalen 39). Gallai Deddf Waliau

Cydrannol etc 1996 hefyd fod yn berthnasol i drawsnewid atig, ac os felly, bydd rhaid hysbysu perchenogion eiddo cyfagos am unrhyw waith.

Os ydych yn bwriadu trawsnewid eich atig er mwyn gallu byw ynnddi, bydd angen i chi osod grisiau newydd. Os yw'n bosibl, dylai'r grisiau barhau yn nhwll grisiau presennol y tŷ er mwyn arbed lle a chynnal llif naturiol yr adeilad. Fel arall, bydd angen i chi wahanu rhan o ystafell â phared i wneud lle i'r grisiau newydd. Os yw lle'n brin iawn ac mai dim ond un ystafell sy'n cael ei chreu, gall grisiau traddodiadol mwy serth fod yn dderbyniol mewn rhai trawsnewidiadau atig os yw'r arwynebedd llawr yn gyfyngedig iawn, ond bydd angen i chi holi tîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol cyn i unrhyw waith ddechrau.

Bydd y rheoliadau adeiladu ar gyfer trawsnewid atig hefyd yn berthnasol i'r canlynol:

### Ystafelloedd ymolchi

Bydd ystafell ymolchi yn yr atig yn uwch nag unrhyw ystafell arall yn eich cartref a gallai ▶



fod problemau â'r disgyriad gofynnol a'r onglau peipiau i gyflawni draenio da.

Y lle gorau i osod ystafell ymolchi neu gawod wrth drawsnewid atig yw yn union uwchben eich ystafell ymolchi bresennol; bydd hyn yn eich galluogi i gysylltu â'r draeniau a'r cyflenwad dŵr presennol heb orfod ychwanegu gormod o beipiau.

Mae'n debygol y bydd trawsnewid eich atig yn golygu cryfhau'r llawr, ond gallai fod angen iddo fod yn gryfach fyth os ydych yn bwriadu gosod baddon yn eich ystafell ymolchi yn yr atig.

O ran trydan, caiff ystafelloedd ymolchi eu hystyried yn barthau arbennig ac nid yw ystafell ymolchi mewn atig yn eithriad. I atal sioc drydanol bosibl, mae'r rheoliadau adeiladu'n mynnu na ddylid gallu cyffwrdd unrhyw fath o osodiad trydanol o rywle lle gallai rhywun fod mewn cysylltiad â dŵr ar yr un pryd, ac y dylid cadw gosodiadau trydanol yn ddigon pell oddi wrth unrhyw risg o ddŵr yn tasgu o gawod. Dim ond gosodiadau foltedd isel sydd wedi'u diogelu'n arbennig y ceir eu gosod mewn unrhyw ystafell ymolchi newydd ac mae angen i'r rhain gydymffurfio â

rheolau ar gyfer gwahanol 'barthau' trydanol mewn ystafelloedd ymolchi. Mae'n bwysig eich bod yn defnyddio trydanwr cymwysedig ar gyfer pob gosodiad mewn ystafell ymolchi, a bod y gwaith yn cael ei archwilio o dan gynllun unigolion cymwys cymeradwy, fel y cynllun a gynhelir gan NICEIC.

**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:**

**<https://www.niceic.com/medialib/www.niceic.com/PDF/15868-FactSheet-Bathroom-A4-4pp-web.pdf>**

### **Thermal insulation**

To prevent heat loss, you will need to provide a high level of insulation to your roof as part of your loft conversion. The most popular way of achieving this is to place a high performance insulation board in between and below the rafters. Unless your roof has a breathable felt you will need to leave a void above the insulation to ensure that you have effective roof ventilation to prevent the build-up of condensation.

### **Ynysu thermol**

I leihau sŵn deisiau, bydd angen inswleiddio'r waliau a'r llawr i leihau

# Are you looking for a tradesperson to carry out work in your home?



Whether your project is big or small, using a competent tradesperson will ensure the compliance and safety of work undertaken in your home.

NAPIT Registered Installers across the electrical, heating, plumbing, ventilation, microgeneration and building fabric trades are:

- Able to complete work safely and to legally required standards
- Regularly assessed to ensure ongoing competence
- Capable of working to the very latest Health and Safety Regulations
- Competent to provide the necessary certificates to demonstrate regulatory compliance



Competent Tradesperson



Find a local NAPIT Registered Installer via our online register which lists companies and electrical operatives, providing you with assurance that the person who turns up on your doorstep is competent.

**Search for an installer today at:  
<https://search.napit.org.uk/>**

[www.napit.org.uk](http://www.napit.org.uk)

0345 543 0330



OfficialNAPIT



@OfficialNAPIT



NAPIT



trawsyriant sain. Fel rheol, gwneir hyn drwy osod 100mm o gwilt pylu sain yn y gwactod llawr ac yn y parwydydd. Os ydych yn addasu atig tŷ pâr neu dŷ teras, bydd angen i chi sicrhau eich bod yn uwchraddio gwrthiant sain y Wal Gydrannol i leihau trawsyriant sain i'ch cymdogion.

### Gwresogi

I wneud yr ystafell mor ddefnyddiol â phosibl, mae'n debygol y byddwch am osod gwresogi yn eich trawsnewidiad atig. Y ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yw estyn y system gwres canolog bresennol ond dylech wirio â'ch plymwr neu eich peiriannydd gwresogi i sicrhau bod eich boeler presennol yn ddigon pwerus i wasanaethu unrhyw wresogyddion ychwanegol.

### Offer trydanol

Bydd angen addasiadau trydanol ar gyfer y rhan fwyaf o drawsnewidiadau atig, a gallai fod yn bosibl estyn y system drydanol sy'n bodoli, ond bydd hyn yn dibynnu ar ei hoed a'i chyflwr ac mae'n bosibl y bydd angen cylchedau newydd neu fwrdd dosbarthu newydd. Y peth gorau i'w wneud yw cael cyingor gan drydanwr cymwys yn gynnar.

### Ffenestri ac awyru

Dylai'r rhan agoradwy o ffenestri fod 1,100mm uwchlaw'r llawr i atal pobl rhag syrthio, a dylai ffenestri ystafelloedd ymolchi sy'n wynebu eiddo cyfagos ddefnyddio gwydr barugog. Gall lleoliad a maint y ffenestri hefyd eich helpu i fodloni gofynion awyru.

Bydd angen awyru digonol ym mhob ystafell drigiadwy newydd. Mewn atig, bydd hyn yn bwysicach fyth gan fod gwres yn codi.

Yn gyffredinol, cyflawnir hyn drwy ddarparu ffenestr neu ffenestr do agoradwy sy'n gywerth ag o leiaf 1/20fed ran o arwynebedd llawr yr ystafell, gydag awyrell 'diferu' ar lefel uchel. Mewn ystafelloedd ymolchi neu gawod heb ffenestri agoradwy, bydd angen gosod gwyntyllau echdynnu. Dylai'r rhain gael eu rheoli gan y switsh golau ag amseryddion gor-reddeg sy'n caniatáu i'r wyntyll aros ymlaen ar ôl i'r golau gael ei ddiffodd.

Mae atig sydd wedi'i thrawsnewid yn dda'n ased pendant i'ch cartref; gall ddarparu mwy o le defnyddiol ac ychwanegu gwerth at eich eiddo, ond mae'n bwysig sicrhau eich bod yn cynllunio eich trawsnewidiad yn ofalus ac yn gofyn i gontractwr profiadol wneud y gwaith. ■



## Wall and Floor Tiling Specialist

- ◆ Bathrooms ◆ Kitchens ◆
- ◆ Hallways and living spaces ◆
- ◆ Outdoor tiling ◆
- ◆ Repairs and remedial work ◆

Covering Cardiff as well as the whole of South Wales.

07548 079455

Airey.n@hotmail.com | www.aireytiling.co.uk

# Gary Jones Professional Painter

- Anti Vandal Coatings
- Door Stripping
- Exterior Painting
- Paint Sprayer
- Painting / Decorating
- Timber Resin Repairs
- Timber Restoration
- Wallpapering
- Wooden Windows Stripped / Painted

I have been decorating for 35 years and have vast experience in all decorating services.

I always try to achieve a top quality job and want the customer to feel happy with the finished product. I will never let the customer feel pressured into anything they do not want and I always quote jobs with no obligations and will be on the job from start to finish.

All aspects of decorating undertaken from paperhanging, outside work, spraying – **no job too big.**

**Mobile: 07852248412**

**Email: garyjones.gj74@gmail.com**

# Trawsnewid Isloriau a Selerau

Mae trawsnewid isloriau a selerau wedi dod yn llawer mwy poblogaidd mewn datblygiadau preswyl dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, lle nad oes llawer o le i adeiladu estyniadau uwchlaw'r ddaear.



Mae islawr neu seler wedi'i thrawsnewid yn dda'n gallu bod yn lle diddorol ac yn ffordd wych o wneud mwy o le yn eich tŷ, ond bydd angen i dîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol graffu'n fanwl ar y gwaith – mae hyn oherwydd y posibilrwydd sylweddol o broblemau â lleithder a diogelwch adeileddol yn ogystal â sut i ddianc rhag tân.

Gan ddibynnu ar y maint, ansawdd yr adeiladwaith a'r gorffeniad, gall trawsnewid islawr neu seler ychwanegu 20% neu fwy

at werth eich eiddo – mae'n debyg mai gwerthwyr tai lleol fydd yn y sefyllfa orau i'ch cynghori am hyn.

Gallai trawsnewidiadau syml mewn islawr neu seler roi elw da am fuddsoddiad, yn enwedig os yw'r lle'n bodoli eisoes ac nad oes angen newidiadau adeileddol. Ar gyfer prosiectau lle mae angen cloddio a/neu danategion, bydd y costau'n llawer uwch gan ddibynnu ar ►

y lleoliad, maint y gwaith, ansawdd yr adeiladwaith a'r fanyleb

Ffactorau eraill a all gynyddu costau trawsnewid islawr/seler:

- Os oes rhaid i chi ddargyfeirio dŵr draenio neu os oes gan yr ardal lefel trwythiad uchel sy'n golygu bod angen pwmp yn gweithio'n gyson.
- Eiddo sydd wedi'i leoli ar rai mathau o dir fel clai, tywod, cors neu dir artiffisial (defnydd wedi'i gloddio'n flaenorol).
- Safle sy'n anodd ei gyrraedd neu heb unman i storio pridd wedi'i gloddio.
- Galw uchel am barcio ar eich stryd fel na allwch gael caniatâd ar gyfer sgip.

Mae prosiectau mawr i drawsnewid isloriau a selerau'n gallu bod yn gymhleth dros ben, ac mae trawsnewidiad gwael hyd yn oed yn gallu lleihau gwerth eich eiddo, ac mewn rhai achosion gallai beryglu cyfanrwydd adeilleddol eich cartref presennol yn ogystal â thai cyfagos. Felly, fel pob prosiect adeiladu, mae'n bwysig cynllunio'r gwaith trawsnewid yn ofalus iawn a threfnu bod contractwr profiadol yn gwneud y gwaith.

## Materion dylunio i'w hystyried

Wrth feddwl a yw eich islawr neu eich seler yn addas i'w trawsnewid, efallai yr hoffech ystyried:

- Adeilledd: A oes digon o uchdwr, o gofio bod y triniaethau llawr a nenfwd y bydd rhaid i chi eu







gosod yn debygol o leihau'r uchdwr sydd ar gael?

- Ffordd o ddianc: Beth fydd angen ei ddarparu fel ffordd o ddianc rhag tân, a sut y mae hyn yn effeithio ar weddill eich eiddo?
- Draenio: A yw'r lle byth yn dioddef llifogydd?
- Mynediad: Sut fynedfa sydd? A oes lle i risiau?
- Storio: A fydd gennych ddigon o le i storio pethau ar ôl addasu eich islawr/seler?
- Addasrwydd: A oes digon o le i greu'r ystafell yr hoffech ynteu a fyddai'n well i chi adeiladu estyniad?
- Awyru: A yw eich seler wedi'i hawyru neu a ellid cyflawni hyn?

## Pa ganiatâd sydd ei angen arnaf?

Mae bron yn sicr y bydd angen caniatâd cynllunio os ydych yn gwneud unrhyw newidiadau adeileddol neu'n addasu edrychiad allanol yr eiddo, neu os yw'r adeilad yn rhestredig neu mewn Ardal Gadwraeth.

Dylech hefyd holi eich awdurdod cynllunio lleol a oes angen Asesiad Effaith Islawr cyn iddynt roi caniatâd. Oherwydd cynnydd mewn pryderon gan berchenogion tai am ddifrod adeileddol posibl i'w heiddo gan gynnwys difrod gan ddŵr, mae nifer o gynghorau Llundain nawr yn mynnu bod Asesiad Effaith Islawr yn cael ei gyflwyno yn ystod y cam cais cynllunio. Os ydych yn gwneud newidiadau adeileddol ac yn rhannu wal â'ch cymydog, mae'n bosibl y bydd angen cytundeb hefyd o dan Ddeddf Waliau Cydrannol etc 1996. Mae'r rheoliadau adeiladu, ar y llaw arall, yn berthnasol i unrhyw waith trawsnewid islawr neu seler yn ogystal ag adeiladu rhai newydd.

## Y rheoliadau adeiladu a thrawsnewid isloriau/selerau

Bydd y rheoliadau adeiladu'n berthnasol i'r adeiledd, inswleiddio thermol, awyru, draenio, uchder nenfydau, atal lleithder, gwifro trydanol, cyflenwadau dŵr, amddiffyn rhag tân a ffordd o ddianc rhag tân.

### Adeiledd

Os nad oes digon o uchdwr yn eich seler, weithiau bydd ►

yn bosibl gostwng y llawr ond nid yw hyn yn broses syml. Bydd angen i chi ystyried yn ofalus a fydd gostwng y llawr yn tanseilio sylfeini'r tŷ neu dŷ'r cymydog ac a fydd yn mynd â'r llawr yn is na'r lefel trwythiad gan y gallai hyn gynyddu'r risg o lifogydd – argymhellir eich bod yn cael cyngor arbenigol cyn ystyried gostwng lloriau.

### Atal lleithder

Gan fod y rhan fwyaf o isloriau neu selerau o dan lefel y ddaear, maent yn tueddu i ddiodef problemau â lleithder. Mae nifer o systemau gwrthleithder ar gael ar gyfer isloriau a selerau; bydd y rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio system rendro wrth-ddŵr o'r enw tancio sy'n ffurfio haen wrthleithder barhaus ar draws y llawr ac i fyny'r waliau. Fel rheol, caiff hon

### Angen gosod grisiau newydd?

Lle bynnag yr ydych yn gosod grisiau newydd wrth drawsnewid islawr/seler, dylid eu dylunio'n unol â'r canllawiau canlynol.

- Ongl: Ni ddylai uchafswm ongl y grisiau fod yn fwy na 42 gradd.
- Codiad a gofod llorwedd: Ni ddylai codiad mwyaf pob gris ar risiau domestig fod yn fwy na 220mm a dylai fod y gofod llorwedd o leiaf 220mm.
- Uchdwr: Ni chaniateir gostyngiadau – isafswm syml o 2m uwchlaw'r llinell goleddf.
- Canllawiau a balwstradau: Dylai fod canllaw ag uchder o leiaf 900mm ar y grisiau a dylai fod balwstrad ag uchder o leiaf 900mm ar unrhyw ymylon grisiau neu ben grisiau. Ni ddylai'r balwstradau ganiatáu i sffêr 100mm fynd drwyddynt, ac ni ddylai fod yn bosibl eu dringo.





ei gosod gan gwmniau arbenigol a fydd yn cynnig gwarant wedi'i hyswiro ar gyfer y gosodiad – bydd angen i dîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol gymeradwyo manylion y system a hefyd y gosodwr cyn dechrau'r gosodiad.

### **Mynediad**

Bydd gan rai isloriau a selerau fynedfa dda â grisiau yn barod. Fodd bynnag, mater o farn broffesiynol yw addasrwydd y grisiau presennol fel mynediad i ystafell drigiadwy. Os nad oes grisiau, neu os yw'r grisiau presennol yn annigonol, bydd angen gosod grisiau newydd (gweler yr erthygl gyferbyn). Dylid ystyried yn ofalus ble yw'r lle gorau i roi'r grisiau a bydd hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys cynllun y tŷ ar hyn o bryd, faint o uchdwr sydd ar gael ac a ellir darparu dihangfa arall o'r islawr/seler.

### **Diogelwch tân**

Bydd angen dihangfa addas rhag tân o bob islawr a seler sydd wedi'i thrawsnewid i fod yn fan trigiadwy. Yn aml, gellir uwchraddio tyllau golau/ffenestri presennol i ddarparu dihangfa

dân eilaidd, yn ogystal ag awyru. Mae angen colfachau tân arbennig ar y ffenestri hyn i sicrhau y gellir eu hagor yn llawn er mwyn i chi allu dringo i fyny o'r twll golau i lefel y ddaear pe bai tân yn digwydd. Os na allwch ddarparu ail ddihangfa dân, bydd angen i'r grisiau arwain i gyntedd sydd wedi'i amddiffyn rhag tân â drws yn arwain yn uniongyrchol i'r tu allan.

Wrth drawsnewid eich islawr neu seler, mae'n gyfle da i adolygu'r rhagofalon tân sydd ar gael yn y tŷ presennol. Mae canfodyddion mwg wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad trydan yn gwneud y cartref yn llawer mwy diogel o ran tân ac mae'r rheoliadau adeiladu'n mynnu y dylid gosod un wrth addasu isloriau i wneud ystafelloedd trigiadwy.

### **Draenio**

Mae angen ystyried draenio'n ofalus yn gynnar wrth drawsnewid unrhyw islawr/seler oherwydd gall achosi problemau, yn enwedig os ydych yn bwriadu cynnwys sinc, ystafell ymolchi, ystafell gawod neu ddyfeisiau sefydlog newydd. Bydd angen i ddyfeisiau newydd, fel peiriant golchi, ►

gysylltu â'r system bresennol ar gyfer draenio dŵr budr, ond mae'r rhain fel rheol ar lefel uwch na'r dyfeisiau yr ydych yn bwriadu eu gosod. Yr ateb yma yw gosod system ddraenio â phwmp sy'n mwydo'r dŵr draenio ac yn ei bwmpio i'r system ddraenio bresennol. Bydd angen ffyrdd addas i beipiau arwain at fan lle gallant gysylltu â'r draeniau presennol.

### Nenfydau

Mae angen darparu nenfydau digonol wrth drawsnewid islawr/seler, yn bennaf at ddibenion tân, ynysu thermol ac atal sain. Mae'n debyg mai bwrdd plastr yw'r defnydd mwyaf cyffredin i'w ddefnyddio i wneud nenfydau oherwydd mae'n gwrthsefyll tân yn dda ac yn atal fflamau rhag lledaenu. Os caiff eich islawr/seler neu'r ystafell uwch ei phen ei defnyddio fel ystafell wely, bydd angen i chi osod cwilt acwstig i atal sain yn y bwlch llawr rhwng yr ystafelloedd.

### Gwresogi

Os ydych yn gobeithio gosod gwresogi fel rhan o'r trawsnewidiad, estyn y system gwres canolog bresennol yw'r datrysiad mwyaf effeithiol ond bydd angen i'ch plymwr neu eich peiriannydd gwresogi wneud yn siŵr bod eich boeler a'ch pwmp presennol yn ddigon pwerus i wasanaethu unrhyw wresogyddion ychwanegol.

### Awyru

Bydd angen awyru unrhyw ystafelloedd trigiadwy newydd yn yr islawr/seler a gall hyn beri problem wrth drawsnewid islawr/seler. Os nad yw awyru naturiol drwy ffenestri'n ymarferol, bydd angen gosod system awyru fecanyddol, ond bydd angen i dîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol gymeradwyo'r rhain.

### Inswleiddio thermol

Ar ôl trawsnewid eich islawr/seler, dylai ddarparu amlen wedi'i hinswleiddio er mwyn lleihau colledion gwres. Yn ogystal ag inswleiddio, dylech ystyried effeithlonrwydd unrhyw wasanaethau yr ydych yn eu gosod. Dylid defnyddio ffitiadau golau egni isel lle bynnag y bo'n bosibl a dylai unrhyw systemau gwresogi newydd weithio at lefelau effeithlonrwydd uchel a chynnwys thermostatau a rheolyddion addas.

**Mae rhagor o wybodaeth am systemau gwresogi sy'n effeithlon o ran egni ar dudalen 61.**

### Offer trydanol

Weithiau, bydd yn bosibl estyn eich cylchedau presennol i islawr/seler ond yn aml bydd angen cylchedau newydd a bwrdd dosbarthu newydd. Gofynnwch i drydanwr cymwys am gyngor yn gynnar i weld a oes modd estyn eich system drydanol. ■



# Garejis Trawsnewid



Mae trawsnewid garej yn ffordd boblogaidd a chymharol rad o wneud mwy o le i fyw ynddo yn eich cartref, o gymharu ag adeiladu estyniad.

Er bod y rhan fwyaf o bobl nawr yn defnyddio eu garej i storio eu meddiannau, yn hytrach na'u cerbyd, gallai ei thrawsnewid yn ystafell ddefnyddiol wella'r ffordd yr ydych yn defnyddio'r tŷ presennol yn ogystal ag ychwanegu at werth yr eiddo – hyd at 10% mewn rhai achosion – felly gall fod yn ffordd gymharol rad o wneud mwy o le i fyw ynddo.

## Materion dylunio

Dylech ystyried y canlynol:

- Mynediad: Sut ewch chi i mewn i'r ystafell newydd? A oes gennych ddrws i'r garej o'r tŷ, neu le i osod un?
- Storio: A fydd gennych ddigon o le i barcio a/neu storio pethau ar ôl addasu eich garej? ▶





- Addas i'r prwpas: A oes digon o le yn eich garej i greu'r ystafell yr hoffech ynteu a fyddai'n well i chi adeiladu estyniad?
- Defnyddiau: A yw adeiladwaith eich garej bresennol yn anarferol? Er enghraifft, paneli parod, ffrâm goncrit ac ati.

## Caniatâd cynllunio a thrawsnewid garejis

Gellir trawsnewid y rhan fwyaf o garejis o dan hawliau datblygiad a ganiateir, yn enwedig os nad ydych yn bwriadu newid yr adeiledd, ond dylech wneud yn siŵr nad oes amodau cynllunio ynghlwm wrth y garej, yn enwedig os ydych yn byw mewn adeilad rhestredig neu Ardal Gadwraeth. Mae'n bosibl na fydd hawl i drawsnewid rhai garejis. Gallai hyn fod oherwydd bod y cyngor am gadw manau parcio i atal parcio ar y stryd, neu oherwydd estheteg wyneb y stryd.

Os ydych yn newid adeiledd neu faint y garej, bydd angen i chi holi eich cyngor oherwydd gallai hyn fod y tu hwnt i'ch hawliau datblygiad a ganiateir. Os ydych yn trawsnewid garej sydd ar wahân i'r tŷ, bydd

rhaid i chi wneud cais am 'newid defnydd', felly bydd angen cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu.

## Y rheoliadau adeiladu ar gyfer trawsnewid garejis

Bydd angen cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu i drawsnewid unrhyw garej. I gydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu, mae angen y canlynol ar eich garej wedi'i thrawsnewid:

- Adeiledd cadarn
- Cwrs gwrthleithder
- Defnydd inswleiddio effeithlon o ran egni yn y waliau, y llawr a'r nenfwd
- Offer trydanol i gyd wedi'u profi o ran diogelwch
- Awyru da i atal lleithder
- Y gallu i wrthsefyll tân a diangfeydd.

Bydd tîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol yn gwirio eich bod wedi defnyddio'r drysau a'r ffenestri cywir, bod y draeniau cywir yn eu lle a bod yr elfennau adeileddol i gyd yn addas i'r ystafell yr ydych wedi'i chreu.

Bydd tîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol hefyd yn gwirio'r canlynol:

### Sylfeini

Un o'r prif feysydd a fydd yn peri pryder fydd y math o sylfaen sydd o dan eich garej bresennol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n rhy fas i gynnal pwysau ychwanegol wal newydd, ffenestr neu ddrws yn lle'r oedd drws y garej yn arfer bod. Os bydd y trawsnewidiad yn dda'u lawr, bydd angen i'r sylfeini fod yn ddyfnach fyth. Bydd angen i'r adeiladwr gloddio sylfeini newydd ac mae'n bosibl y bydd angen peiriannydd adeileddol i sicrhau bod y sylfeini newydd yn gywir.

### Selio thermol

Nid yw garej wedi'i gwneud i fod yn gynnes ac yn gyfforddus; yn wir, mae awyru a llif aer yn bwysig mewn garej felly bydd yn ddrafftio hefyd. Ni ddylai eich ystafell newydd fod fel hyn o gwbl. Bydd angen inswleiddio lloriau, waliau a tho eich garej a'u gwella i sicrhau eich bod yn bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer effeithlonrwydd egni yn eich ystafell newydd. Mae'r rheolau hyn hefyd yn berthnasol i'r ffenestri a'r drysau y byddwch yn eu defnyddio.

### Newidiadau adeileddol

Fel rhan o'r trawsnewidiad, gallech ddewis newid llinell y to neu osod ffenestri, drysau, mynedfeydd neu waliau newydd – y tu mewn

a thu allan. Os yw unrhyw un o'r rhain yn effeithio ar adeiledd cyffredinol y lle, bydd angen ei gymeradwyo yn gyntaf.

### Awyru

Bydd angen awyru unrhyw ystafelloedd trigiadwy newydd yn ddigonol am resymau iechyd. Cyflawnir hyn drwy ddarparu ffenestr sy'n agor sydd o leiaf 1/20fed ran o arwynebedd llawr yr ystafell. Dylai fod gan y ffenestri awyrell diferu yn y ffrâm ac agoriad clir o leiaf 0.33m<sup>2</sup>. Dylai dimensiynau'r ffenestr fod o leiaf 450mm x 450 mm.

### Draenio

Os yw eich trawsnewidiad yn mynd i gynnwys ystafell ymolchi neu doiled, bydd angen i chi sicrhau bod draeniau ar gael yn rhwydd a'ch bod yn defnyddio carthffosydd yn gywir. Efallai y gwelwch hefyd fod y garej wedi'i hadeiladu dros ddraeniau sy'n bodoli. Efallai y gallwch ddysgu rhywfaint am hyn o gynlluniau eich cartref.

Mae trawsnewidiad garej wedi'i ddylunio a'i adeiladu'n dda'n gallu darparu mwy o le defnyddiol ac ychwanegu gwerth at eich eiddo. Mae trawsnewidiad gwael, fodd bynnag, yn gallu lleihau gwerth eich eiddo ac mewn rhai achosion gallai beryglu eich diogelwch a chyfanrwydd adeileddol eich cartref. Mae'n bwysig sicrhau eich bod yn cynllunio eich trawsnewidiad garej yn ofalus ac yn trefnu bod contractwr profiadol yn gwneud y gwaith. ■



# Gwneud Addasiadau

Bydd y rheoliadau adeiladu'n berthnasol i' fwyaf o brosiectau gwella cartrefi sy'n cyn unrhyw addasiadau sylweddol. Nod yr ad yw esbonio sut mae'r rheoliadau adeiladu' effeithio ar rai o'r prosiectau y gallech fod eu hystyried.



## Tynnu waliau mewnol

Mae gan waliau mewnol nifer o swyddogaethau. Mae rhai'n hanfodol i adeiledd y tŷ, mae rhai'n amddiffyn grisiau rhag tân ac unig bwrpas rhai eraill yw rhannu'r lle o fewn y tŷ; gellir addasu neu dynnu'r rhain heb lawer o broblemau.

Mae waliau cynnal pwysau'n sylfaenol i adeiledd y tŷ ac mae angen meddwl yn

ofalus ynglŷn â'u newid neu eu tynnu. Mae angen caniatâd rheoliadau adeiladu i addasu neu dynnu waliau cynnal pwysau, ac yn gyffredinol, dylid comisiynu peiriannydd adeileddol i ddylunio'r addasiad.

Bydd y peiriannydd adeileddol yn ystyried pa lwythi y mae'r wal yn eu dal ac yn dylunio trawst ac, os oes angen, adeiledd cynnal arall i sicrhau bod y llwythi yr oedd y wal ▶





yn eu cynnal yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel i'r ddaear. Yna, bydd tîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol yn archwilio'r gwaith wrth iddo fynd rhagddo ac yn rhoi tystysgrif ar ôl ei gwblhau i ddangos bod y gwaith wedi cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu.

Mae'r waliau o gwmpas eich grisiau'n cynnig rhywfaint o amddiffyniad i ganiatáu i chi ddiac rhag tân, felly mae angen caniatâd rheoliadau adeiladu i addasu'r waliau hyn mewn unrhyw ffordd. Os tynnir y waliau hyn, mae'n hanfodol gosod canfodyddion mwg digonol yn eich tŷ a bod gan bob ystafell ffenestr sy'n addas at ddiobenion diac rhag tân. Os ydych yn bwriadu tynnu un o'r waliau hyn, gall corff rheoli adeiladu ganfod a yw'r waliau'n hanfodol i amddiffyn rhag tân yn eich tŷ a chynghori ynglŷn ag unrhyw waith ychwanegol sydd ei angen i ganiatáu i'r addasiadau ddigwydd.

### Ffenestri crwm a simneiau

Caiff ffenestri crwm a simneiau eu dosbarthu fel estyniadau bach o dan y rheoliadau

adeiladu, a bydd angen cymeradwyaeth gan dîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol. Gweler y canllawiau ar estyniadau yn yr adran gynharach.

### Draeniau newydd

Fel rheol, nid oes angen caniatâd rheoliadau adeiladu i osod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd sy'n debyg i'r hen rai, ond os gosodir draeniau newydd i wasanaethu dyfais arall, er enghraifft, mae angen cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu.

### Boeleri newydd ac addasu systemau trydanol

Yn gyffredinol, gwneir y mathau hyn o addasiadau gan gontractwyr sy'n gallu hunanardystio eu gwaith. Gallech ddefnyddio contractwr sydd ddim wedi'i gofrestru â chynllun hunanardystio, ond bydd angen cyflwyno cais rheoliadau adeiladu i dîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol. Yna, byddant hwy'n cynnal yr archwiliadau perthnasol ac yn rhoi tystysgrif gwblhau ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau'n foddhaol. ■

# Extreme Heating Ltd

Plumbing Service ● Contractor ● Water Heater Installation & Repair Service

We cover all Plumbing  
Heating and Gas  
Installations

- Boiler installs
  - Bathroom
- Boiler service
  - Gas safety
- Repair and maintenance

**Mobile: 07495 563409**

**Email: [extremeheating@mail.com](mailto:extremeheating@mail.com)**

## Looking for a builder?

At the **Federation of Master Builders**, we connect clients with quality, local builders they can trust. Our members are:



**Independently inspected and vetted** on joining



Able to provide a **written contract** for every job



Committed to abide by the **FMB Code of Conduct**



Able to offer an **FMB Insurance warranty** for every job (also available to homeowners directly)



Use our Find a Builder tool to start your search today: [www.fmb.org.uk/bcc-fab](http://www.fmb.org.uk/bcc-fab)



[@fmbuilders](https://www.instagram.com/fmbuilders)



[@federationofmasterbuilders](https://www.instagram.com/federationofmasterbuilders)

Projects delivered by Sporn Contraction (extension) and MCK Construction (bathroom)

# Egni

## Effeithlonrwydd



Drwy ddefnyddio egni'n fwy effeithlon a lleihau gwastraff, gallwn i gyd helpu i atal newid hinsawdd ac arbed arian ar filiau. Mae bron i hanner allyriadau carbon deuocsid y Deyrnas Unedig yn dod o egni yr ydym yn ei ddefnyddio bob dydd, a llawer o hwnnw yn y cartref. Felly os ydych yn ystyried estyniad neu drawsnewidiad atig yn eich cartref, mae'n debygol o fod yn adeg dda i ystyried mesurau ychwanegol i arbed egni yn eich eiddo presennol hefyd.

### Ffenestri

Os oes gennych ffenestri gwydr dwbl sy'n hen neu o ansawdd gwael, gall gosod ffenestri newydd perfformiad uchel haneru colledion gwres drwy ffenestri, gan wneud yr ystafell yn fwy cyfforddus ac yn haws ei gwresogi.

Mae gan lawer o ffenestri newydd label egni i'ch helpu i gymharu eu perfformiad. Bydd

sgôr egni'r ffenestr rywle rhwng C ac A++ – o dan y rheoliadau adeiladu, C yw'r sgôr isaf y caniateir i osodwr ei osod ac A++ yw'r sgôr uchaf sydd ar gael ar hyn o bryd.

Fel rheol, caiff ffenestri eu gosod gan aelod o gynllun unigolion cymwys perthnasol i wneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu. ▶



Os ydych yn amnewid eich ffenestri fel rhan o brosiect adnewyddu mwy, efallai y gall eich adeiladwr osod y ffenestri a gofyn i dîm rheoli adeiladu eich awdurdod lleol eu cymeradwyo.

**I gael rhagor o fanylion am sut y mae ffenestri gwydr dwbl yn gweithio, y costau, yr arbedion ac ystyriaethau eraill, gweler tudalen wybodaeth yr Ymddiriedolaeth Arbed Egri: <https://www.energysavingtrust.org.uk/home-energy-efficiency/energy-efficient-windows>**

## Inswleiddio'r atig

Mae inswleiddio eich atig yn ffordd syml ac effeithiol o leihau eich biliau gwresogi. Mae'r defnydd inswleiddio'n gweithio fel blanced, gan ddal y gwres sy'n codi o'r tŷ oddi tano.

Mae inswleiddio atig safonol yn gallu bod yn dasg eithaf syml os ydych yn hyderus

â gwaith DIY, ond mae llawer o gwmnïau proffesiynol ar gael i wneud y gwaith ar eich rhan. Gallwch inswleiddio atig safonol drwy osod gwllân sinidr rhwng y distiau, sef y trawstiau llorweddol sy'n gwneud llawr yr atig. Gellir defnyddio defnyddiau hyblyg eraill, fel defnydd inswleiddio gwllân dafad, yn lle gwllân sinidr ond wrth osod defnydd inswleiddio yn eich atig mae'n rhaid bodloni'r gwerthoedd isafswm effeithlonrwydd egri sydd wedi'u nodi yn y rheoliadau adeiladu. Yna, dylid ychwanegu ail haen o ddefnydd inswleiddio ar ongl sgwâr i orchuddio'r distiau, gan ddod â'r defnydd inswleiddio i'r trwch sy'n cael ei argymell, sef 270mm.

Os oes gennych do fflat, neu ystafell wedi'i hadeiladu yn eich atig, gallai ychwanegu mwy o ddefnydd inswleiddio





fod ychydig yn anoddach. Os oes gennych atig safonol sy'n anodd mynd i mewn iddi neu sy'n brin iawn o uchdwr, gallai fod angen i chi wneud rhywbeth gwahanol. Efallai y gallai cwmni arbenigol chwythu defnydd inswleiddio rhydd i mewn i'ch atig.

## Inswleiddio waliau ceudod

Mae inswleiddio waliau ceudod yn un o'r gwelliannau mwyaf cost-effeithiol y gallwch eu gwneud o ran egni yn eich cartref – gallai dynnu dros draean oddi ar eich costau gwresogi.

Bydd llenwi'r bwlch rhwng dwy wal tŷ â defnydd inswleiddio'n golygu y bydd llawer llai o wres yn dianc drwy'r waliau. Fodd bynnag, nid yw pob cartref yn addas. Efallai na fydd gennych geudod i'w llenwi, neu efallai na fydd eich ceudod yn addas i'w inswleiddio. Neu efallai y bydd angen i chi wneud rhyw waith ychwanegol cyn gallu inswleiddio eich ceudodau, neu ddefnyddio defnydd inswleiddio penodol.

Bydd gan y rhan fwyaf o dai a adeiladwyd cyn 1920 waliau solet – hynny yw, mae'r waliau

wedi'u gwneud o frics neu gerrig heb fwllch neu geudod yn y canol. Yn ystod yr 1920au, daeth waliau ceudod yn fwy cyffredin. Mae gan y rhain ddalen allanol, o frics fel rheol, yna bwlch yn y canol, ac yna dalen fewnol o frics neu flocliau concrit.

Gellir inswleiddio'r rhan fwyaf o waliau ceudod â gwllan sinidr neu â gleiniau polystyren. Y rhain yw'r defnyddiau mwyaf cyffredin, a'r rhataf, ond mae'n rhaid i'r ceudod fodloni meini prawf penodol er mwyn iddynt fod yn addas.

Efallai na fyddwch yn gallu gosod defnydd inswleiddio safonol mewn waliau ceudod:

- Os yw curlaw'n taro eich tŷ yn aml
- Os yw eich ceudodau'n rhy gul
- Os yw eich ceudodau'n anghyson
- Os yw eich ceudodau wedi'u blocio â rwbel
- Os oes gennych rywmau wal diffygiol
- Os yw eich cartref yn dueddol o ddioddef llifogydd ▶

Bydd gosodwr ardstyedig yn gwirio'r meini prawf hyn i gyd cyn penderfynu a all inswleiddio eich waliau.

Mae gosod defnydd inswleiddio wal geudod wedi'i ddiifinio'n benodol fel gwaith adeiladu hysbysadwy yn y rheoliadau adeiladu. Os yw'r gosodwr wedi'i gofrestru â'r Asiantaeth Gwarantu Inswleiddio Ceudod (Cavity Insulation Guarantee Agency: CIGA) yn y rhan fwyaf o achosion bydd y gosodwr yn cyflwyno'r hysbysiad adeiladu. Beth bynnag, dylai perchenogion adeiladau wirio bob amser y caiff hysbysiad adeiladu ei gyflwyno. Os nad yw eich waliau'n addas ar gyfer inswleiddio ceudod, gallech ystyried inswleiddio'r waliau yn fewnol neu'n allanol. Weithiau, hwn fydd yr opsiwn mwyaf priodol hyd yn oed os oes ceudod yn y wal.

Mae waliau solet yn colli hyd yn oed mwy o wres na waliau ceudod; yr unig ffordd o leihau'r golled hon yw eu hinswleiddio nhw ar y tu mewn neu'r tu allan.

Nid yw'n ddewis rhad, ond bydd y manteision i'w gweld yn ddigon buan ar eich bil gwresogi ac mae'n ffordd arall o gyfrannu at leihau

allyriadau carbon. Mae dwy ffordd o inswleiddio waliau solet – allanol a mewnol.

### Inswleiddio allanol

Mae hyn yn golygu rhoi triniaeth inswleiddio addurnol sy'n gwrthsefyll y tywydd ar du allan eich wal. Dylai fod trwch y defnydd inswleiddio rhwng 50-100mm ac fel rheol caiff ei osod os oes problemau difrifol â gwresogi neu os oes angen rhyw fath o waith atgyweirio arall ar du allan yr adeilad.

### Inswleiddio mewnol

Ffordd arall o inswleiddio waliau solet yw drwy inswleiddio'r wal fewnol. Mae'r mathau'n cynnwys laminiadau parod defnydd inswleiddio/bwrdd plastr neu estyll pren wedi'u mewnlenwi â defnydd inswleiddio neu leinin hyblyg.

Fel rheol, bydd laminiadau defnydd inswleiddio/bwrdd plastr yn cynnwys bwrdd plastr â defnydd inswleiddio ar ei gefn, fel rheol hyd at gyfanswm trwch o gomm.

Os ydych yn uwchraddio wal solet drwy osod defnydd inswleiddio, mae'n rhaid iddi fodloni'r





gwerthoedd isafswm effeithlonrwydd egni sydd wedi'u nodi yn y rheoliadau adeiladu.

## Inswleiddio lloriau

Gellir inswleiddio lloriau pren drwy godi'r estyll a gosod defnydd inswleiddio gwllân sinidr wedi'i gynnal gan rwydi rhwng y distiau.

## Gwresogi a dŵr poeth

Gallai defnyddio boeler cyddwyso effeithlon â rheolyddion gwresogi arbed £190-£240 y flwyddyn mewn costau gwresogi. Bydd hefyd yn lleihau allyriadau carbon eich cartref yn sylweddol gan fod boeleri'n gyfrifol am tua 60 y cant o'r holl allyriadau CO<sub>2</sub> domestig.

Mae oes boeler ar hyn o bryd o gwmpas 15 mlynedd, felly drwy ddewis system wresogi â boeler cyddwyso effeithlon a'r rheolyddion gwresogi cywir, gallwch wneud gwahaniaeth enfawr i'ch biliau gwresogi dros amser.

Mae dewis system wresogi i'ch cartref yn gallu bod yn gymhleth – efallai yr

hoffech ystyried egni adnewyddadwy neu dechnolegau ecogyfeillgar eraill (gweler drosodd). Cyn ystyried y manylion, dylech hefyd ystyried dyluniad, lleoliad, cyfeiriadedd, cysgod a ffabrig eich cartref gan fod y rhain yn cael effaith enfawr, yn enwedig ar yr angen am unrhyw system wresogi/oeri fecanodydol.

## Atal drafftiau

Os gallwch deimlo aer oer yn dod i mewn o gwmpas y ffenestri neu'r drysau yn eich cartref, mae'n golygu bod aer cynnes yn dianc. Mewn cartref nodweddiadol, mae inswleiddio gwael a drafftiau'n achosi 20 y cant o'r holl golledion gwres.

Yn syml, mae atal drafftiau'n golygu llenwi bylchau fel bod llai o aer oer yn dod i mewn i'ch cartref. Mae llawer o fathau o ddefnyddiau ar gael o frwshys, ewynnuau a seliau i stribedi a siapiau rwber neu blastig. Gallwch hefyd ddefnyddio sêl tiwb reolaidd, fel silicon, i lenwi bylchau rhwng estyll a byrddau sgrytin i atal ►

drafftiau. Gair o rybudd, fodd bynnag – peidiwch â blocio brics aer o dan y llawr yn eich waliau allanol. Bydd estyll llawr yn pydru os na chânt eu hawyru'n ddigonol.

## Inswleiddio tanciau a pheipiau

Mae inswleiddio eich silindr dŵr poeth yn un o'r ffyrdd symlaf a hawddaf o arbed egni ac arian. Bydd gosod 'siaced' Safon Brydeinig o gwmpas eich silindr yn lleihau colledion gwres dros 75%. Os oes gennych siaced wedi'i gosod eisoes, gwnewch yn siŵr ei bod o leiaf 75mm o drwch. Os nad yw, bydd gosod siaced newydd yn helpu i leihau eich biliau tanwydd.

## Technolegau ecologyllgar

Efallai yr hoffech ychwanegu dewisiadau egni adnewyddadwy i ategu ffynonellau egni traddodiadol yn eich estyniad neu drawsnewidiad. Mae paneli solar (mae rhai'n cynhyrchu dŵr poeth, a rhai ffotofoltaidd yn generadu trydan), pypiau gwres neu eneraduron ffynhonnell aer a daear, boeleri pelenni pren/biomas, llosgwyr logiau,


tyrbinau gwynt a dŵr, a generaduron pŵr a gwres cyfunol domestig bach yn dod yn fwy a mwy poblogaidd. Mae rhai'n ddrud iawn i'w prynu a'u gosod, felly meddyliwch beth fydd orau i chi dros y cyfnod yr ydych yn disgwyl byw yn eich tŷ. Efallai y bydd gennyh ddiddordeb hefyd mewn systemau adennill gwres ac awyru mecanyddol (mechanical ventilation and heat recovery: MVHR), y genhedlaeth ddiweddaraf o foeleri nwy effeithlon iawn a systemau rheoli clyfar, goleuo egni isel a defnyddio offer domestig sy'n effeithlon o ran egni.

## Goleuo

Mae'n gwneud synnwyr i osod y bylbiau newydd mwyaf effeithlon posibl o ran egni, er mwyn helpu i leihau eich biliau egni. Bylbiau LED yw'r dewis gorau; maent yn arbennig o effeithlon o ran egni. Er eu bod yn gymharol ddrud i'w prynu, nid yw bylbiau LED yn cynhyrchu prin ddim gwres ac maent yn defnyddio ffracsion o'r un egni â bylbiau confensiynol ac yn para hyd at 20 gwaith yn hirach – tua 50,000 awr.







## Gwresogi o dan y llawr

Y ffordd fwyaf effeithlon o gyflenwi gwres i ystafell yw o'r llawr i fyny. Felly, mantais gwresogi o dan y llawr (underfloor heating: UFH) yw bod angen tymheredd llawer is na systemau gwresogyddion i gyflawni'r un faint o gysur thermol. Mae hyn yn golygu y gallai eich boeler presennol weithredu'n fwy effeithlon, gan arbed arian ac egni.

Honnir bod UFH yn cynnig effeithlonrwydd rhwng 15-30% yn well na gwres canolog confensiynol, ac mae rhyddhau lle ar waliau heb y gwresogyddion mawr yn fantais arall. Mae'r prif fath o UFH yn defnyddio dŵr cynnes wedi'i bwmpio drwy beipiau plastig sy'n cael eu gosod yn haen uchaf y llawr dros fyrddau inswleiddio arbennig. Mae hyn yn ei wneud yn llai addas ar gyfer ôl-osod oherwydd yr holl waith sydd ei angen i godi lloriau.

Hyd yn oed ar gyllideb gymedrol, dylai inswleiddio thermol barhau i fod yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau na chaiff y gwres sy'n cael ei gynhyrchu yn eich cartref

ei gollu. Bydd cartref sydd wedi'i inswleiddio'n dda'n costio llai i'w wresogi, ac yna bydd llai o angen systemau gwresogi drud i gadw'r preswylwyr yn gynnes.

**Mae rhagor o wybodaeth am fesurau arbed egni i'ch cartref ar gael o <https://www.energysavingtrust.org.uk/home-energy-efficiency>** ■





FEDERATION OF  
**MASTER  
BUILDERS**  
fmb.org.uk

# Looking for a builder?



## Choose a Master Builder and build with confidence

At the Federation of Master Builders, we connect clients with quality, local builders they can trust. Our members are:



**Independently inspected and vetted** on joining to ensure they meet our high standards



Able to provide a **written contract** for every job, and are committed to abide by the **FMB Code of Conduct**



Able to offer an **FMB Insurance warranty** for every job (also available to homeowners directly)

**Use our Find a Builder tool to start your search today:**  
[www.fmb.org.uk/bcc-fab](http://www.fmb.org.uk/bcc-fab)

### **Become a Master Builder**

To find out how FMB membership can make a difference to you and your building company, visit:  
[www.fmb.org.uk/bcc-join](http://www.fmb.org.uk/bcc-join)



@fmbuilders



@federationofmasterbuilders

Projects delivered by: Atlantic Construction (dining space), Sporn Construction (facade), Convert Construction (extension) and MCK Construction (bathroom)



# Gwybodaeth Bellach



Isod mae rhestr o'r mathau o waith y mae cynlluniau unigolion cymwys yn ymwneud â hwy yn y DU.

Mae'r cysylltau at y gwefannau perthnasol ar dudalennau 66-67.

## Gosod inswleiddio waliau ceudod:

Ardystiad Blue Flame, CERTASS, Certsure, CIGA, NAPIT, Stroma

## Gosod inswleiddio waliau solet:

BBA, Ardystiad Blue Flame, CERTASS, Certsure, NAPIT, Stroma

## Gosod offer nwy:

Cofrestr Gas Safe

## Gosod neu amnewid systemau dŵr poeth a gwresogi:

APHC, BESCA, Ardystiad Blue Flame, Certsure, Cofrestr Gas Safe, HETAS, NAPIT, OFTEC, a Stroma

## Gosod neu amnewid boeleri olew a thanciau storio:

APHC, BESCA, Ardystiad Blue Flame, Certsure, NAPIT, OFTEC, STROMA

## Gosod llosgyddion tanwydd solid neu eu hamnewid:

APHC, BESCA, Certsure, HETAS, NAPIT, OFTEC, Stroma

## Gosod systemau aerdymeru parhaol neu awyru mecanyddol mewn aneddiadau:

BESCA, Blue Flame, Certsure, NAPIT, Stroma

## Unrhyw waith gosod trydanol mewn aneddiadau:

BESCA, Ardystiad Blue Flame, Certsure, NAPIT, OFTEC, Stroma

## Gwaith gosodiadau trydanol sy'n gysylltiedig â gwaith arall yn unig mewn aneddiadau (e.e. gosod cegin, gosod boeler):

APHC, BESCA, Blue Flame, Certsure, NAPIT, Stroma

## Amnewid ffenestri, drysau, ffenestri to, neu oleuadau to mewn aneddiadau:

Ardystiad Blue Flame, BMTRADA, CERTASS, Certsure, FENSA, INVEKA, NAPIT, Stroma

## Gosod systemau plymwaith a chyflenwi dŵr ac ystafelloedd ymolchi ac offer glanhau:

APHC, BESCA, Certsure, HETAS, NAPIT, Stroma

## Amnewid gorchuddion to ar doeon ar ongl a thoeon gwastad (heb gynnwys paneli solar):

CompetentRoofer, NAPIT

## Gosod technoleg microgynhyrchu neu dechnoleg adnewyddadwy:

APHC, BESCA, Certsure, HETAS, NAPIT, OFTEC, Stroma..



APHC

[www.aphc.co.uk](http://www.aphc.co.uk)

---



BESCA

[www.besca.org.uk](http://www.besca.org.uk)

---



Blue Flame

[www.blueflamecertification.com](http://www.blueflamecertification.com)

---



BMTRADA

[www.bmtrada.com](http://www.bmtrada.com)

---



Y Bwrdd Cymeradwyo Prydeinig  
(BBA) [www.bbacerts.co.uk](http://www.bbacerts.co.uk)

---



Certsure LLP  
(yn masnachu fel ELECSA)

[www.elecsa.co.uk](http://www.elecsa.co.uk)

---



Certsure LLP  
(yn masnachu fel NICEIC)

[www.niceic.com](http://www.niceic.com)

---



Competent Roofer (NRFC)

[www.competentroofer.co.uk](http://www.competentroofer.co.uk)

---



CERTASS

[www.certass.co.uk](http://www.certass.co.uk)

CIGA

[www.ciga.co.uk](http://www.ciga.co.uk)

FENSA

[www.fensa.co.uk](http://www.fensa.co.uk)

Cofrestr Gas Safe

[www.gassaferegister.co.uk](http://www.gassaferegister.co.uk)

HETAS

[www.hetas.co.uk](http://www.hetas.co.uk)

INVEKA

[www.networkveka.co.uk](http://www.networkveka.co.uk)

NAPIT

[www.napit.org.uk](http://www.napit.org.uk)

OFTEC

[www.oftec.org](http://www.oftec.org)

Stroma

[www.stroma.com](http://www.stroma.com)

---

Cardiff County Council  
Planning, Transport & Environment  
Building Control  
County Hall  
Atlantic Wharf  
Cardiff CF10 4UW

**Email: [buildingcontrol@cardiff.gov.uk](mailto:buildingcontrol@cardiff.gov.uk)**

**Web: [www.cardiff.gov.uk/ENG/Business/Planning-property-and-building-control/Building-Regulations/Pages/default.aspx](http://www.cardiff.gov.uk/ENG/Business/Planning-property-and-building-control/Building-Regulations/Pages/default.aspx)**

